

Parc Cenedlaethol Eryri
Snowdonia National Park

Ymddiriedolaeth Genedlaethol
National Trust

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Natur dan Glo

## Asesiad o ymateb bywyd gwyllt gogledd-orllewin Cymru i gyfnod clo COVID-19 (Gwanwyn 2020)

Ben Porter

Ymddiriedolaeth Genedlaethol
National Trust

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Adolygiad ar y cyd rhwng Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Chyfoeth Naturiol Cymru.

© 2020 xx



Natur dan Glo

# Cyflwyniad

Yn ystod gwanwyn 2020, cauwyd nifer o safleoedd poblogaidd ar draws gogledd Cymru yn dilyn cyflwyno cyfnod clo dros Brydain gyfan oherwydd argyfwng iechyd Coronafeirws. Oherwydd rheoliadau'r cyfnod clo a'r cyfyngiadau ar deithio, cauwyd nifer fawr o ardaloedd yn llwyr i'r cyhoedd yn gyffredinol, a chyfyngwyd yn aruthrol ar ymweliadau mewn ardaloedd eraill. Bu'r lleihâd hwn mewn trafnidiaeth dynol o fewn yr ardaloedd hyn yn gyfle unigryw i werthuso'r modd y mae bywyd gwyllt, tirwedd a llystyfiant yn ymateb i amodau o'r fath. O fewn cyd-destun cenedlaethol, arweiniodd y cyfnod hwn a elwir yn 'anthropause' at ostyngiad mewn llygredd aer a sŵn mewn ardaloedd trefol gan ganiatau i gân yr adar dreiddio drwy ardaloedd sydd fel arfer yn llawn sŵn traffig; daeth adroddiadau bod geifr ar y Gogarth yn tyrru i lawr i dref Llandudno a llamhidyddion yn nofio i fyny'r afon Hafren i hawlio sylw dan brif benawdau'r papurau newydd.

Roedd adroddiadau am y modd yr oedd bywyd gwyllt yn ymateb i'r cyfnod hwn yn ardaloedd Parciau Cenedlaethol Cymru ac ar draws Eryri wedi eu cyfyngu i raddau helaeth i'r hyn a gofnodwyd ar sgwrs gan yr ychydig bobl oedd yn byw yn yr ardaloedd hyn, yn cynnwys ffermwyr lleol a rheolwyr tiroedd. Felly, cyn codi'r cyfyngiadau clo yn nechrau Gorffennaf, daeth Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri at ei gilydd a phenderfynu rhoi comisiwn i syrfewyr gynnal arolygon mewn nifer o'u hardaoedd mwyaf poblogaidd (yn arferol) er mwyn asesu beth yn union oedd yn digwydd a sut yr oedd natur wedi ymateb i'r cyfyngiadau annisgwyl hyn. Byddai'r archwiliadau hyn yn gweithredu fel gwaelodlin ar gyfer cymharu digwyddiadau cyffelyb yn y dyfodol. Mae'r adroddiad hwn yn cofnodi canlyniadau'r archwiliadau hyn ac yn trafod y canfyddiadau mwyaf amlwg yng ngoleuni'r amgylchiadau unigryw a mwyaf eithriadol a welwyd yn ystod gwanwyn 2020.





Natur dan Glo

# Cynnwys

Cyflwyniad ... 3
Dulliau ... 7
Gwarchodfa Natur Genedlaethol Yr Wyddfa ... 13
Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cwm Idwal, Tryfan a'r Glyderau ... 29
Gwarchodfa Natur Geneldaethol Cader Idris ... 49
Y Carneddau: Yr Elen, Carnedd Llewelyn a Moel Grach ... 73
Crynodeb o arolygon yr ucheldir ... 85
Gwarchodfa Natur Genedlaethol Ceunant Llennyrch ... 89
Gwarchodfa Natur Genedlaethol Niwbwrch ac Ynys Llanddwyn ... 105
Coed y Brenin: Llwybr Pistyll y Llyn a Chylchdaith Afon Eden ... 131
Crynodeb o arolygon yr iseldir ... 147



Natur dan Glo

# Dulliau

Dewiswyd cyfanswm o saith ardal gwahanol ar draws Eryri a Gogledd Cymru ar gyfer yr arolygon hyn. Roedd pedwar o'r safleoedd yn dir uchel a mynyddig sef yr Wyddfa, Dyffryn Ogwen, y Carneddau a Chader Idris; a'r tri safle arall yn dir ïs a mwy coediog sef Coed-y-Brenin, Coed Llennyrch a Niwbwrch (Newborough Warren). O fewn pob un o'r ardaloedd eang hyn, dewiswyd cyfres o deithiau trawsdoriadol yn dilyn prif lwybrau cerdded, gan gwblhau arolygon amrywiol ohonynt. Gweler y canlyniadau fesul safle yn yr adran benodol ar gyfer yr arolygon a wnaed ym mhob ardal.

Yn fras, roedd yr arolygon ar hyd y llwybrau 'trawsdoriadol' hyn yn cynnwys cofnodi adar yn nythu, cyflwr y llystyfiant ar ochrau'r llwybrau ac mewn mannau ymgasglu poblogaidd, symudiadau mamaliaid ac yn mesur gwastraff. Cafodd unrhyw beth arall a welwyd neu a glywyd ei gofnodi, gan gynnwys pryfed, presenoldeb pobl a sylwadau ar lefelau pori mewn rhai safleoedd tir uchel.Yn achos pob un arolwg, roedd GPS cludadwy wrth law i gofnodi'r daith drawsdoriadol ac i nodi unrhyw wybodaeth ddefnyddiol ar gyfer digiteiddio'r daith ymhellach ymlaen a nodi'r union fan lle gwelwyd unrhyw beth prin neu werth ei gofnodi. Dros y tudalennau canlynol, rhestrir prif ardaloedd yr arolwg a manylion y fethodoleg ar gyfer pob un.

Gwnaed yr arolygon ar ddeg diwrnod rhwng 6ed Mehefin a 26ain Mehefin 2020 er mwyn cynnwys y saith safle a galluogi mwy nag un daith mewn rhai o'r safleodd mwy eang yn yr ucheldir. Cafodd yr arolygon eu cynnal dros y cyfnod hwn er mwyn ymateb i amodau tywydd cyfnewidiol a'r angen am dywydd addas ar gyfer arolygu'r mannau uwch a mwy mynyddig.

## Dull Arolygu 1

**Targed**
Adar yn Nythu

**Dull arolygu cyffredinol**
Taith ar droed ar hyd prif lwybrau gan nodi unrhyw adar ac arwyddion nythu.

**Manylion methodoleg**
Bydd yr arolygwr yn cerdded taith benodol gan ddilyn llwybrau troed sefydledig a ddefnyddir yn aml fel arfer gan y cyhoedd. Bydd y sylwebydd yn edrych yn ofalus i'r dde ac i'r chwith tra'n cerdded y llwybr gan nodi unrhyw aderyn ar fap a chofnodi manylion GPS unrhyw nythod adar prin a welid (e.e. hutan y mynydd, cwtiad aur, mwyalchen y mynydd). Bydd unrhyw weithgaredd nythu (e.e. adar gwryw yn canu neu adar ifanc yn dysgu hedfan) yn cael ei gofnodi gan ddefnyddio codau nythu y BTO. Bydd rhai mannau ar y daith lle bydd angen treulio 10 munud yn sganio cynefinoedd gerllaw (megis ochrau creigiau, llwyfandiroedd agored a chreigiau) i ganfod unrhyw arwydd o bresenoldeb adar. Caiff yr holl ddata ei gofnodi ar fap OS 1:25,000 OS a thaflenni arolwg perthnasol, gan gynnwys yr amser o'r dydd, lleoliad a nifer. Caiff map o'r daith ei gofnodi hefyd er mwyn iddi fod yn bosibl ail wneud y camau hyn o'r arolwg os bydd angen.

## Dull Arolygu 2

**Targed**
Mamaliaid

**Dull arolygu cyffredinol**
Taith ar droed gan nodi unrhyw famaliaid a welir a thystiolaeth o 'u gweithgaredd

**Manylion methodoleg**
Tra'n cerdded yr un daith â'r un ar gyfer yr arolwg adar nythu, bydd yr arolygwyr yn cofnodi unrhyw famaliaid a welir (rhywogaeth, nifer a lleoliad), gan ddefnyddio GPS i gofnodi union leoliad yn achos unrhyw rywogaethau prin.

Bydd unrhyw dystiolaeth o weithgaredd mamalaidd hefyd yn cael ei gofnodi yn ystod y daith, gan gynnwys tystiolaeth o foch daear a llwynogod yn aflonyddu tir. Bydd unrhyw faw llwynog yn cael ei gofnodi gyda chyfeiriad grid ac yna ei symud ymaith o'r llwybr fel y caiff ymweliadau pellach gofnodi unrhyw faw ychwanegol ers yr arolwg cyntaf.

## Dull Arolygu 3

**Targed**
Llystyfiant

**Dull arolygu cyffredinol**
Bydd yr arolwg yn asesu llwybrau troed yn ystod y daith o safbwynt maint llystyfiant ac amrywiaeth rhywogaethau.

Teithiau llwybr mewn rhai ardaloedd ac arolygon copaon er mwyn asesu presenoldeb / absenoldeb rhywogaethau, amrywiaeth ac amlder planhigion.

Ffotograffiaeth pwynt sefydlog fel cofnod i wneud cymharu yn bosibl yn y dyfodol ac i asesu newid yn weledol.

**Manylion methodoleg**
Bydd arolygon llystyfiant yn ceisio asesu effaith lefel ïs o gywasgu o gwmpas llwybrau a mannau ymgasglu poblogaidd (e.e. ar gopaon) ar gymunedau llystyfiant.

Arolygu llwybrau troed – ar gyfer pob ardal arolygu cyffredinol (e.e. yr Wyddfa), byddwn yn dewis lleoliad addas ar lwybr poblogaidd i gynnal un o'r arolygon hyn. Bydd hyn yn golygu gosod llinell arolygu 10-20m ar draws llwybr a defnyddio cwadrat 1×1m bob 2m gan nodi a chofnodi: amrywiaeth rhywogaethau planhigion, nifer a chanran lledaeniad.

Arolygu copaon – mewn mannau ymgasglu poblogaidd ac ar gopaon (megis ar yr Wyddfa), byddem yn defnyddio tâp mesur i greu radiws arolygu crwn yn mesur tua 10m, ac oddi mewn iddo yn asesu nifer, amrywiaeth a chanran lledaeniad unrhyw rywogaethau o blanhigion.

Ffotograffiaeth pwynt sefydlog - yn ystod pob taith, bydd 5-10 lleoliad yn cael eu dewis (gyda phellter gweddol reolaidd rhyngddynt) i gymryd cyfres o luniau o'r llwybr a'r tir o gwmpas gan ddefnyddio lens ongl lydan. Pwrpas hyn fydd ceisio dogfennu ardaloedd megis mannau ymgasglu

poblogaidd, llwybrau a ddefnyddir yn aml ac ardaloedd o gwmpas copaon, ond bydd hefyd yn gallu dogfennu amodau cynefinoedd ehangach er gwybodaeth yn y dyfodol. Byddwn yn tynnu lluniau trwy ddefnyddio Canon SLR a lens chwyddo ongl lydan safonol, gan gofnodi cyfeirnod / cyfesuryn GPS ar gyfer pob lleoliad.

## Dull Arolygu 4

**Targed**
Sbwriel a gwastraff plastig


**Dull arolygu cyffredinol**
Amcangyfrif maint tebygol y sbwriel ar hyd llwybrau troed.


**Manylion methodoleg**
Byddwn yn cofnodi maint y sbwriel trwy gadw cyfrif o'r eitemau a ganfyddir yn ystod pob taith. Bydd math (e.e. potel blastig) a nifer pob eitem yn cael ei gofnodi, ac hefyd union leoliad ar gyfer yr ardaloedd lle gwelir bod llygredd sbwriel ar ei waethaf.

## Adroddiadau allanol a chanlyniadau

Yn ychwanegol at yr arolygon a luniwyd ar gyfer yr adroddiad hwn, derbyniwyd nifer o adroddiadau oddi wrth naturiaethwyr, ffermwyr ac unigolion oedd yn gallu cael mynediad at rai o'r safleoedd hyn yn ystod y cyfnod clo. Caiff yr adroddiadau hyn eu cynnwys gyda'r canlyniadau ar gyfer pob un o'r safleoedd.

Caiff y canlyniadau eu cyflwyno ar gyfer pob un o'r safleoedd, a rhoddir crynodeb o'r holl ganfyddiadau ar ddiwedd yr adroddiad. Yn achos pob safle, rhoddir crynodeb byr gyda chanlyniadau pob arolwg gwahanol a wnaed a detholiad o luniau.







Ardal Arolygu 1


# Gwarchodfa Natur Genedlaethol Yr Wyddfa

| | |
|---|---|
| Safle | Gwarchodfa Natur Genedlaethol Yr Wyddfa |
| Dyddiadau'r arolygon | 9 Mehefin 2020<br>24 Mehefin 2020 |
| Llwybrau'r daith | Llwybr y Mwynwyr<br>Llwybr Llanberis<br>Llwybr Watcyn a Chwm Llan |

Cafodd yr arolygon ar yr Wyddfa eu rhannu rhwng dau ymweliad: un i ddilyn Llwybr y Mwynwyr a Llwybr Llanberis (ar 9 Mehefin 2020) a'r llall i arolygu ardal Cwm Llan trwy ddilyn Llwybr Watcyn i'r copa ac yna llwybr y crib hyd at Bwlch Cwm Llan ac yn ôl i'r cwm (ar 24 Mehefin 2020). Gweler y map trosodd am drosolwg mwy manwl o'r union daith.


Fel yr amlinellwyd ym methodoleg y prosiect, roedd yr arolwg hwn yn golygu cofnodi unrhyw adar a welid yn ystod y daith (yn enwedig arwyddion o nythu), unrhyw weithgaredd mamalaidd, lefel y sbwriel ar y llwybrau, cyflwr llystyfiant mewn mannau penodol a thynnu lluniau pwynt sefydlog.

Amodau tywydd: ar 9 Mehefin roedd gwyntoedd ysgafn o'r dwyrain (10-15mya) gydag awyr glir i gychwyn cyn bod cymylau yn lledu a niwl yn cuddio'r copaon; tymheredd yn gynnes (15-17°C). Ar 24 Mehefin roedd ychydig iawn o wynt (<5mya) gydag awyr glir a'r tymheredd yn gynnes (17-22°C).




*Ffigwr 1a: Map o'r Wyddfa yn dangos y ddau lwybr gwahanol a alolygwyd (melyn = Llwybr y Mwynwyr a Llwybr Llanberis, oren = Llwybr Watcyn).*

*Pwyntiau oren yw mannau cychwyn a gorffen yr arolygon, pwyntiau coch yw'r nodau targed y cyfeirir atynt yn y crynodeb canlyniadau, pwyntiau glas yw safleoedd ffotograffiaeth pwynt sefydlog a pwyntiau gwyrdd yw lleoliadau arolygu llystyfiant.*




*Ffigwr 1b: Golwg fanylach o gopa'r Wyddfa ac ardal Glaslyn*







# Canlyniadau'r Arolwg

Dros y tudalennau canlynol rhoddir crynodeb o ganlyniadau pob un o'r amrywiol arolygon gan gyfeirio at fap yr adral arolygu a defnyddio rhifau mewn cromfachau ar gyfer unrhyw nodau targed.

*Gweler 'Tabl 2: Canlyniadau arolwg adar Yr Wyddfa' ar dudalen 20*

## Adar

Cofnodwyd 41 gwahanol rywogaeth yn ystod y ddau ymweliad ag ardal yr Wyddfa, gyda  Corhedydd y Waun, Tinwen y Garn a'r Dryw y rhywogaethau mwyaf niferus a nodwyd. Roedd yr adar mwyaf arbennig a nodwyd yn cynnwys tri Gohedydd y Waun, dau/dwy Gôg, wyth Pibydd y Dorlan ar Llyn Llydaw a phedair Bran Goesgoch o gwmpas crib y copa ger y Lliwedd. Dros y tudalennau canlynol gwelir crynodeb o'r adar a fyddai fwyaf tebygol o deimlo effaith y gostyngiad yn niferoedd pobl yn yr ardal.



*Pibydd y dorlan ar Lyn Llydaw*

**Pibydd y Dorlan yn nythu o gwmpas Llyn Llydaw (1)**: roedd o leiaf dri phâr o'r pibyddion yn bresennol o gwmpas y llyn, yn ymddangos fel pe baent yn nythu yn agos i'r prif lwybr mewn nifer o fannau (o sylwi ar eu hymateb i'n presenoldeb a'u galwadau ofnus), yn enwedig ar ochr orllewinol Llyn Llydaw yn agos at y sarn fechan. Rhywogaeth swil yw hwn ac mae'n sensitif iawn i ymyrraeth gan bobl.

**Gwylanod y Penwaig o gwmpas Glaslyn a'r copa**: dim ond dwy Wylan Benwaig a gofnodwyd o amgylch perimedr Glaslyn a'r cyfrif uchaf ar y copa oedd 16, a oedd o amgylch y garnedd a'r caffi. Mae'r cyfrifiadau hyn yn rhyfeddol o isel o ystyried y niferoedd arferol o amgylch Yr Wyddfa (mae poblogaeth fridio fach fel arfer yn bodoli o amgylch Llyn Glas). O ystyried eu dibyniaeth arferol ar fwyd yn cael ei daflu gan bobl o amgylch y man ymgynnull poblogaidd hwn, mae'n debygol bod diffyg ymwelwyr a bwyd cysylltiedig wedi arwain at adar yn symud i rywle arall dros dro.

**Mwyalchen y Mynydd yn eu tiriogaethau**: gwelwyd tri enghraiffft o fwylachen y mynydd yn ystod y ddau ymweliad arolygu: gwelwyd un gwryw ar y creigiau uwchben Glaslyn (4), un arall yn casglu bwyd (ac felly o bosibl yn nythu) wrth ymyl llwybr Llanberis (9) ac un arall ar y sgri yn agos i'r copa ar ben Llwybr Watcyn (8). Mae'r rhywogaeth hwn yn sensitif iawn i ymyrraeth gan bobl ac fel arfer yn cadw i ardaloedd anghysbell a chreigiog.

**Y Fran Goesgoch ar grib y copa**: gwelwyd dwy Fran Goesgoch yn hedfan ar hyd y grib o'r copa i gyfeiriad Y Lliwedd, a chofnodwyd pâr arall ar 26 Mehefin o gwmpas ardal y copa a'r caffi gydag un ohonynt yn glanio yn agos iawn at y caffi! Mae'r rhywogaeth hwn eto yn aderyn nythu prin yn Eryri ac yn sensitif i ymyrraeth gan bobl.

**Adar yn nythu wrth ochr llwybrau**: roedd yn eglur bod nifer o rywogaethau adar bach (yn enwedig Tinwen y Garn, Siglen Fraith, Siglen Lwyd a Chorhedydd y Waun) wedi nythu unai yn agos iawn at lwybrau poblogaidd neu yn y creigiau o dan y llwybrau a ddilynwyd ar y daith arolygu. Byddai graddfa uchel o ymyrraeth oherwydd traffig dynol wedi rhwystro hyn, ond mae'n debygol y byddai'r adar hyn wedi nythu mewn mannau eraill.

## Llystyfiant

Roedd llystyfiant yn amlwg mewn rhannau eang o Lwybr y Mwynwyr a Llwybr Watcyn, gyda gwellt, blodau gwyllt a nifer o rwyogaethau planhigion eraill yn tyfu rhwng y craciau yn y creigiau ac yn aml yn gorchuddio rhannau fydd fel arfer wedi eu sathru yn helaeth gan bobl. Tynnwyd lluniau o'r ardal o gwmpas y carnedd ar gopa'r Wyddfa a chofnodwyd yr amrywiaeth planhigion o fewn radiws o 10m. Cofnodwyd cyfanswm o 15 gwahanol rywogaeth o blanhigion gan gynnwys Mantell Mair, Tywodlys Mwsoglog a Briwydd Wen.

*Gweler 'Tabl 3: Canlyniadau arolwg llystyfiant ar gopa'r Wyddfa' ar dudalen 22*

## Sbwriel

Cafodd cyfanswm o 22 gwahanol fathau o sbwriel ei gofnodi ar draws y tri llwybr troed gwahanol yn ystod yr arolwg, gyda chyfanswm o 75 eitem. O ran sbwriel, roedd un ardal eithriadol o broblemus ar gwr gorllewinol Glaslyn ar hyd y traeth (3) yn cynnwys 14 darn o blastig lapio, potel wydr Stella, 2 hosen a fforc blastig. Yn gyffredinol, darnau bach o blastig oedd yr eitemau a ganfuwyd fwyaf aml – cyfanswm o 36, yna caniau diodydd metel a photeli plastig. O'r tri llwybr, Llwybr y Mwynwyr oedd â'r nifer fwyaf o eitemau sbwriel, gyda Llwybr Watcyn a Llwybr Llanberis yn dilyn.

*Gweler 'Tabl 4: Canlyniadau arolwg sbwriel ar dri llwybr yr Wyddfa' ar dudalen 23*

## Canfyddiadau eraill

### Arwyddion o'r Llwynog Coch

Canfuwyd dyrnaid o olion traed y llwynog Coch yn y gwaddod meddal o gwmpas glannau Llyn Llydaw, a gwelwyd dau sgat Llwynog Coch ar Lwybr Watcyn, ond nid oeddent yn rhai ffres.

*Lluniau a dynnwyd ar Lwybr y Mwynwyr uwchlaw Llyn Llydaw (P1 ar y map) ac ar Lwybr Watcyn (P7 ar y map yn ffigyrau 1a ac 1b) i ddangos lledaeniad llystyfiant ar hyd y llwybrau.*





## Geifr mynydd fferal

Cofnodwyd pedwar gyr o eifr fferal ar Lwybr y Mwynwyr a Llwybr Llanberis, yn cynnwys o leiaf 35 anifail i gyd. Roedd dwy o'r geifr hyn yn bur agos i'r prif lwybr, a'r drydedd ar y tir anhygyrch ac anodd o dan y copa ac uwchlaw Glaslyn.

## Pryfed symudol

Cofnodwyd casgliad diddorol o bryfed gwasgarog ar garnedd y copa yn ystod yr arolwg cyntaf (9fed Mehefin), yn cynnwys 15-20 gwahanol rywogaeth ac yn cynnwys Llifbryfed (Rhogogaster sp.), Gwiddon (Hylobius abietis) a nifer fawr o bryfed cop bach oedd yn gwasgaru ac yn creu edau fain o sidan. Yn ystod yr ail arolwg (24ain Mehefin), cofnodwyd nifer o loynod byw – 12 Mantell Goch, 2 Mantell Dramor a 3 Britheg Werdd, y mwyafrif ohonynt yn pasio heibio yn y tywydd cynnes a sefydlog.

## Llwyni Meryw (Juniperus communis)

Cofnodwyd ymhell dros 50 o lwyni meryw ar ben y creigiau a'r silffoedd cerrig na allai defaid eu cyrraedd ar rannau uchaf llwybr Watcyn (8) a dyrnaid o blanhigion ar hyd y crib i gyfeiriad Bwlch Cwm Llan.

## Lefelau pori

Er nad oedd yr arolwg yn monitro hyn yn benodol, roedd yn amlwg bod y cynefinoedd a'r llystyfiant yn gwahaniaethu yn unol â'r lefelau pori mewn gwahanol ardaloedd o gwmpas yr Wyddfa. Yr ardaloedd o gwmpas Cwm Llan ac ar hyd llwybr Llanberis o'r copa oedd i'w gweld gyda'r dwysedd uchaf o ddefaid ac yn cael eu pori drymaf, tra bod yr ardal rhwng Pen y Pas a Glaslyn ar lwybr y Mwynwyr yn dangos lefel ysgafnach o bori yn cynnwys buches o tua 30 o wartheg duon Cymreig. Fel y nodwyd eisioes, bu i ni gofnodi tua 35 o eifr fferal yn ychwanegol at y defaid a'r gwartheg mewn nifer o safleoedd, rhai ar y silffoedd islaw'r copa lle byddai rhywogaethau mwy prin o blanhigion alpaidd yn tyfu.

## Pobl

Yn ystod yr arolwg ar 9fed Mehefin, un person yn unig oedd yn bresennol ar ran uchaf Llwybr y Mwynwyr, yn cwblhau gwaith cynnal ar y llwybr; ond ar 24ain Mehefin gwelsom chwech o bobl ar grib y copa, tua 30 o bobl o gwmpas rhaeadrau a glannau'r afon yng Nghwm Llan, a thri person arall yn y coed lle mae man cychwyn Llwybr Watcyn.

*1. Potel blastig ar ran uchaf llwybr Watcyn yn Cwm Llan*
*2. Llwyn Meryw (Juniperus communis) ar ben carreg fawr ar lwybr Watcyn*

1


2


***Tabl 2: Canlyniadau arolwg adar Yr Wyddfa***

*Enw'r safle: Yr Wyddfa*
*Math o arolwg: Adar yn nythu*
*Arolygwyr: Ben Porter gyda chymorth Jo Porter, Steve Porter, Rachel Porter a Deio Williams*
*Dyddiadau'r arolygon: 9 Mehefin 2020; 24 Mehefin 2020*

| Rhywogaeth | Enw gwyddonol | Ll1 | Ll2 | Ll3 | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| Aderyn Du | Turdus merula | 0 | 0 | 1 | **1** |
| Aderyn y To | Passer domesticus | 0 | 0 | 1 | **1** |
| Boncath | Buteo buteo | 2 | 1 | 5 | **8** |
| Bran Dyddyn | Corvus corone | 0 | 1 | 22 | **23** |
| Bran Goesgoch | Pyrrhocorax pyrrhocorax | 0 | 0 | 4 | **4** |
| Bronfraith | Turdus philomelos | 0 | 0 | 1 | **1** |
| Bronwen y Dŵr | Cinclus cinclus | 1 | 0 | 0 | **1** |
| Brych y Coed | Turdus viscivorus | 0 | 1 | 2 | **3** |
| Cigfran | Corus corax | 4 | 4 | 18 | **26** |
| Clochdar y Cerrig | Saxicola torquata | 3 | 3 | 3 | **9** |
| Coch y Berllan | Pyrrhula pyrrhula | 0 | 0 | 1 | **1** |
| Corhedydd y Coed | Anthus trvilialis | 0 | 0 | 1 | **1** |
| Corhedydd y Waun | Anthus pratensis | 37 | 26 | 81 | **144** |
| Cudyll Coch | Falco tinnunculus | 0 | 1 | 0 | **1** |
| Delor y Cnau | Sitta europaea | 0 | 0 | 10 | **10** |
| Dringwr Bach | Certhia familiaris | 0 | 0 | 4 | **4** |
| Dryw | Troglodytes troglodytes | 10 | 2 | 46 | **58** |
| Dryw Eurben | Regulus regulus | 0 | 0 | 4 | **4** |
| Ehedydd | Alauda arvensis | 0 | 14 | 0 | **14** |
| Gwennol Ddu | Apus apus | 0 | 1 | 0 | **1** |
| Gwybedog Brith | Ficedula hypoleuca | 0 | 0 | 6 | **6** |
| Gwybedog Mannog | Muscicapa striata | 0 | 0 | 1 | **1** |
| Gwylan y Penwaig | Larus argentatus | 16 | 2 | 13 | **31** |
| Hwyaden Canada | Branta canadensis | 18 | 0 | 0 | **18** |
| Hwyaden Wyllt | Anas platyrhynchos | 2 | 0 | 0 | **2** |
| Ji-binc | Fringila coelebs | 0 | 0 | 1 | **1** |
| Llinos Werdd | Spinus spinus | 0 | 0 | 1 | **1** |
| Mwyalchen y Mynydd | Turdus torquatus | 1 | 1 | 1 | **3** |
| Pibydd y Dorlan | Actitis hypoleucos | 8 | 0 | 0 | **8** |
| Robin Goch | Erithacus rubecula | 0 | 0 | 1 | **1** |
| Siff Siaff | Philloscopus collybita | 0 | 0 | 4 | **4** |
| Siglen Fraith | Motacilla alba yarrellii | 6 | 0 | 2 | **8** |
| Siglen Lwyd | Motacilla cinerea | 2 | 0 | 7 | **9** |
| Telor Penddu | Sylvia atricapilla | 0 | 0 | 2 | **2** |
| Telor yr Hesg | Phylloscopus trochilus | 0 | 0 | 4 | **4** |
| Tinwen y Garn | Oenanthe Oenanthe | 14 | 17 | 6 | **37** |
| Titw Benddu | Periparus ater | 0 | 0 | 4 | **4** |
| Titw Cynffon Hir | Aegithalos caudatus | 0 | 0 | 7 | **7** |
| Titw Mawr | Parus major | 0 | 0 | 8 | **8** |
| Titw Tomos Las | Cyanistes caerulus | 0 | 0 | 10 | **10** |
| Y Gôg | Cuculus canorus | 0 | 2 | 1 | **3** |
| Cyfanswm nifer y rhywogaethau | | 14 | 14 | 34 | **41** |
| Cyfanswm nifer yr adar | | 124 | 76 | 283 | **483** |

***Ll1: Llwybr y Mwynwyr***
***Ll2: Llwybr Llanberis***
***Ll3: Llwybr Watcyn a Cwm Llan***

***Corhedydd y Waun** – Nifer fawr o adar ifanc llawn plu ac amryw o barau yn nythu o gwmpas y llwybrau; **Tinwen y Garn** – Adar ifanc llawn plu ac adar gwryw yn canu; **Dryw** – Nifer fawr o adar gwryw yn canu; **Clochdar y Cerrig** – Adar ifanc llawn plu; **Ehedydd** – Nifer fawr o adar gwryw yn canu; **Cigfran** – Teuluoedd o adar gyda chywion llawn plu; **Siglen Fraith** – Amryw o barau yn nythu; **Gwylan y Penwaig** – Un pâr yn unig yn ardal Glaslyn; **Pibydd y Dorlan** – O leiaf 3 phâr yn ardal Llyn Llydaw, mwyaf tebygol yn nythu; **Bronwen y Dŵr** – Un aderyn llawn plu; **Siglen Lwyd** – Amryw o adar gwryw yn canu ac un pâr yn nythu; **Mwyalchen y Mynydd** – Aderyn gwryw yn canu ar y creigiau islaw'r copa; **Y Gôg** – Un yn canu yn y dyffryn islaw Llyn Du'r Arddu; un yn canu gerllaw Hafod y Newydd; **Hwyaden Canada** – Dau bâr o Wyddau Canada gyda chywion, un pâr ar Lyn Teyrn gyda thri cyw, ac un par ar ochr Llyn Llydaw (ar y llwybr) gyda chwech o gywion; **Telor yr Hesg** – Adar gwryw yn canu; **Delor y Cnau** – Teulu o adar gyda chywion llawn plu; **Dringwr Bach** – Un gwryw yn canu; **Gwybedog Mannog** – Pâr o bosibl yn nythu; **Telor Penddu** – Adar gwryw yn canu; **Bronfraith** – Adar gwryw yn canu; **Siff Siaff** – Adar gwryw yn canu; **Dryw Eurben** – Adar gwryw yn canu; **Corhedydd y Coed** – Adar gwryw yn canu; **Bran Goesgoch** – Dau bâr o bosib yn nythu gerllaw; **Titw Cynffon Hir** – Cywion llawn plu*

*Tabl 3: Canlyniadau arolwg llystyfiant ar gopa'r Wyddfa*

*Enw'r safle: Yr Wyddfa*
*Math o arolwg: Arolwg llystyfiant ar y copa (radiws 10m o gwmpas y copa)*
*Arolygwyr: Ben Porter, Jo Porter, Steve Porter*
*Dyddiadau'r arolygon: 9 Mehefin 2020*

| Rhywogaeth | Enw gwyddonol | Sgôr DAFOR |
|---|---|---|
| Gweunwellt Unflwydd | Poa annua | Aml |
| Cen y Cerrig | Peltigera sp. | Prin |
| Maeswellt | Festuca ovina | Achlysurol |
| Annual Meadow Grass | Poa annua | Frequent |
| Dog Lichen | Peltigera sp. | Rare |
| Sheep's Fescue | Festuca ovina | Occasional |
| Clefryn | Festuca ovina | Achlysurol |
| Tywodlys mwsoglog | Saxifraga bryoides | Aml |
| Clust y llygoden | Cerastium sp. | Achlysurol |
| Briweg y cerrig | Sedum annuum | Achlysurol |
| Mwsogau | Bryophyte sp. | Aml |
| Gudlys Mwsoglog | Silene acaulis | Prin |
| Maeswellt | Agrostis capillaris | Achlysurol |
| Blodyn Ymenyn ymlusgol | Ranunculus acris | Prin |
| Mantell Mair | Alchemilla mollis | Prin |
| Llyriad Llwyd | Plantago media | Prin |
| Dant y Llew | Taraxicum sp. | Prin |
| Briwydd Wen | Gallium saxatile | Prin |
| Gweflogyn | Festuca vivipara | Prin |
| Milddail | Achillea millifolium | Prin |
| **Cyfanswm nifer y rhywogaethau** | | **15** |





*Tabl 4: Canlyniadau arolwg sbwriel ar dri llwybr yr Wyddfa*

*Enw'r safle: Yr Wyddfa*
*Math o arolwg: Arolwg sbwriel*
*Arolygwyr: Ben Porter, Jo Porter, Steve Porter*
*Dyddiadau'r arolygon: 9 Mehefin 2020; 24 Mehefin 2020*

| Math o sbwriel | Ll1 | Ll2 | Ll3 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Bagiau baw cŵn | 1 | 0 | 0 | 1 |
| Styrofoam | 1 | 0 | 0 | 1 |
| Peli plastig | 1 | 0 | 0 | 1 |
| Pacedi hancesi papur | 1 | 0 | 0 | 1 |
| Darnau plastig lapio | 32 | 4 | 0 | 36 |
| Poteli plastig | 4 | 0 | 3 | 7 |
| Caniau diod metel | 1 | 3 | 4 | 8 |
| Hosannau | 2 | 0 | 0 | 2 |
| Ffyrc plastig | 1 | 0 | 0 | 1 |
| Byff | 0 | 1 | 0 | 1 |
| Cwpanau coffi tafladwy | 0 | 3 | 0 | 3 |
| Darnau ffoil metel | 0 | 1 | 0 | 1 |
| Croen banana | 1 | 0 | 0 | 1 |
| Croen oren | 1 | 0 | 0 | 1 |
| Potiau iogwrt | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Bagiau plastig | 0 | 0 | 2 | 2 |
| Capiau poteli plastig | 0 | 0 | 2 | 2 |
| Teclyn tanio | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Tybiau plastig | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Pacedi sigarennau | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Pwrs gwasg | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Cydau plastig | 0 | 0 | 1 | 1 |
| **Nifer o fathau sbwriel** | **11** | **5** | **10** | **22** |
| **Nifer o eitemau sbwriel** | **46** | **12** | **17** | **75** |

***Ll1: Llwybr y Mwynwyr***
***Ll2: Llwybr Llanberis***
***Ll3: Llwybr Watcyn a Cwm Llan***











*1. Y Lliwedd o Ben y Pass*
*2. Tormaen Serennog ar Lwybr y Mwynwyr*
*3. Gwiddon ar garnedd copa'r Wyddfa*
*4. Grug Cloch a'r Aran*
*5. Tywodlys mwsoglog ar Lwybr y Mwynwyr*
*6. Bran goesgoch ar gopa'r Wyddfa*


















*__Lluniau pwynt sefydlog yn cofnodi cyflwr llystyfiant__*
*Lluniau o'r lleoliadau (rhifau yn cyfeirio ar y map yn Ffig. 1 ar gychwyn yr adran hon)*
*1. Llyn Llydaw ar Lwybr y Mwynwyr (P1)*
*2. Glaslyn yn edrych i gyfeiriad Lliwedd (P2)*
*3. Edrych ar hyd llwybr Llanberis tua 100 medr o'r copa (P3)*
*4. Hanner ffordd i fyny Llwybr Llanberis (P4)*
*5. Cychwyn Llwybr Watcyn yn Cwm Llan (P5)*
*6. Llwybr Watcyn yn cyrraedd Bwlch Ciliau (P6).*



















Ardal Arolygu 2

# Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cwm Idwal, Tryfan a'r Glyderau


| | |
|---|---|
| Safle | Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cwm Idwal, Tryfan a'r Glyderau |
| Dyddiadau'r arolygon | 14 Mehefin 2020<br>25 Mehefin 2020 |
| Llwybrau'r daith | Prif lwybrau troed o gwmpas Cwm Idwal, Y Garn, Tryfan a'r Glyderau |

Fel mwyafrif y safleoedd mwy o faint yn y safleoedd tir uchel, cafodd yr arolygon yn Nyffryn Ogwen eu cwblhau mewn dau ymweliad, un i edrych ar Gwm Idwal, Y Garn a'r ardal o gwmpas y mannau hyn (ar 14 Mehefin 2020) ac un arall i astudio Tryfan, y Glyderau a Llyn Bochlwyd (ar 25 Mehefin 2020). Rhoddir manylion y teithiau hyn ar y map trosodd.

Yn ystod yr arolygon hyn, cofnodwyd unrhyw fywyd adar a welid (yn enwedig arwyddion nythu), gweithgaredd mamaliaid, presenoldeb sbwriel ar hyd y llwybrau, ac amrywiaeth llystyfiant ar gopa'r Garn gan dynnu nifer o luniau pwynt sefydlog yma ac acw ar hyd y llwybr.

Amodau tywydd: ar 14 Mehefin roedd gorchudd cymylau 50% i gychwyn, gyda chawodydd o law a 100% gorchudd cymylau erbyn canol dydd; cryfder y gwynt yn 20mya o'r dwyrain ar y copaon a'r tymheredd yn fwyn (15'C). Ar 25 Mehefin roedd yr amodau yn boeth iawn gyda'r tymheredd yn cyrraedd 25'C erbyn canol dydd, y gwynt yn chwythu 15mya o'r de ddwyrain a dim cwmwl yn yr awyr.

Dyffryn Ogwen




*Ffigwr 2: Map o Ddyffryn Ogwen ac ardal yr arolwg yn dangos y ddwy daith ar wahân (melyn = Cwm Idwal a'r Garn, oren = Tryfan a'r Glyderau). Mae pwyntiau oren wedi yn dangos dechrau a diwedd yr arolygon, pwyntiau coch yw'r nodau targed y cyfeirir atynt yn y crynodeb canlyniadau, pwyntiau glas yn dangos safleoedd tynnu lluniau pwynt sefydlog a phwyntiau gwyrdd yw mannau cychwyn a gorffen*



## Canlyniadau'r Arolwg


Dros y tudalennau canlynol rhoddir dadansoddiad o ganlyniadau'r arolygon ar gyfer y lleoliad hwn, gan gyfeirio at y map ar gyfer sylwadau penodol i'r lleoliad hwnnw a defnyddio rhifau mewn bracedi.

*Gweler 'Tabl 5: Canlyniadau'r arolwg adar nythu o gwmpas Cwm Idwal, Tryfan a'r Glyderau' ar dudalen 36*

### Adar

Cofnodwyd cyfanswm o 28 gwahanol rywogaeth yn ystod y ddau ymweliad arolygu, sef 25 rhywogaeth ar y daith gyntaf dros Gwm Idwal a'r Garn, a 15 rhywogaeth ar yr ail daith dros ardal Tryfan a'r Glyderau. Y rhywogaeth mwyaf niferus a gofnodwyd oedd Corhedydd y Waun, gyda chyfanswm sylweddol o 169 ohonynt wedi eu gweld yn ystod y ddwy daith a nifer o barau yn nythu gerllaw'r llwybrau; gwelwyd Tinwen y Garn a'r Dryw Bach yn aml hefyd; cofnodwyd 50 Dryw gwryw yn canu a chyfanswm o 24 Tinwen y Garn. Ymhlith yr adar mwy prin, cofnodwyd pump Mwyalchen y Mynydd, chwe Llinos y Mynydd, naw Pibydd y Dorlan, a chyw pluog Bronwen y Dŵr a dau Gôg yn canu. Rhoddir sylwadau ar y rhai mwyaf trawiadol dros y tudalennau nesaf.

**Adar o gwmpas Llyn Idwal (1)**: gwelwyd tri phâr o Pibydd y Dorlan ar lannau gorllewinol y llyn, a'u galwadau ofnus wrth i ni nesau yn awgrymu bod yr adar hyn yn nythu yn yr ardal. Gan fod y prif lwybr troed o gwmpas y llyn wedi ei leoli lai na 20 medr oddi wrth y glannau, o dan amodau arferol ac ar amser nythu mae'n debygol y byddai'r rhydyddion sensitif hyn yn llawer mwy ymwybodol o ymyrraeth. Roedd dau Gwyach Mawr Gopog yn nythu ger Llyn Idwal - yn yr hesg ar y cwr deheuol(nodyn targed 4 ar y map), er nad oedd yn glir ar ba gam nythu yr oeddent (gori fwyaf tebyg). Gwelwyr cyw Bronwen y Dŵr llawn plu a dau Siglen Lwyd - yn nythu fwyaf tebyg – ar gwr gogleddol y llyn lle mae'r llwybr troed yn cyrraedd pen pellaf y llyn.



*Mwylachen y Mynydd ger y prif lwybr ar y ddigynfa o'r Garn*

**Mwyalchod y Mynydd**: Gwelwyd cyfanswm o bump Mwyalchen y Mynydd yn ystod cyfnod yr arolwg: clywyd un aderyn yn 'galw argyfwng' ar ochr y Gribbin uwchlaw Llyn Idwal (2), gwelwyd un arall yn bwydo gyferbyn â Llyn Ogwen ar ochr y mynydd yn agos iawn i'r llwybr (9) ac roedd pâr gyda chyw llawn plu lai na 5 medr oddi wrth y llwybr yng nghyfeirnod grid SH637599 ar y ffordd i lawr o'r Garn (6). Ymddengys bod y pâr hwn (roedd y gwryw o dro i dro yn ymroi i ganu) wedi nythu yn agos iawn i'r llwybr, gan fod y cyw yn bur ifanc a newydd adael y nyth. Mae adar swil o'r fath fel arfer yn sensitif iawn i ymyrraeth a byddent yn anhebygol o fod mor amlwg ar y prif lwybrau troed pe byddai'r lefel arferol o ddefnydd gan ymwelwyr.

**Adar yn nythu ar gwr y llwybrau**: fel ym mhob arolwg o dir uchel, ymddengys bod nifer o barau Corhedydd y Waun wedi nythu yn agos i'r llwybrau mewn rhannau o'r teithiau, gan godi yn agos iawn atom a galw argyfwng yn agos i'r llwybr mewn nifer o fannau, gyda chywion llawn plu yn dod allan o gyrion y llwybrau hefyd. Gwelwyd ambell Dinwen y Garn ac ambell bâr o Clochdar y Cerrig hefyd yn agos i'r prif lwybrau, yn ychwanegol at y pâr o fwyalchod y mynydd y cyfeiriwyd atynt eisioes.

## Llystyfiant


Roedd yn amlwg bod diffyg defnydd o'r prif lwybrau gan bobl wedi arwain at ffrwydriad o blanhigion a llystyfiant mewn rhai mannau, yn arbennig ar y llwybrau mwyaf poblogaidd sydd wedi eu ffurfio o gerrig mawr. Yno, roedd gwahanol flodau, gweiriau a phlanhigion eraill (megis y Briwydd Wen, Teim Gwyllt a Rhedyn Pêr y Mynydd) yn tyfu drwy'r craciau ac yn ymledu dros ymylon y llwybrau. Roedd effaith y lleihâd mewn tramwyo yn llai amlwg ar gribau'r mynyddoedd mwy creigiog, rhwng y Glyderau ac ar hyd y Garn, er bod nifer fawr o blanhigion yr Helygen Fach (Salix herbacea; pwynt 5 ar y map) yn tyfu yn agos iawn at y llwybr i fyny'r Garn ar yr ochr de-ddwyreiniol. Mae'n anodd dweud os caiff y rhain eu sathru a'u difrodi gan gerddwyr maes o law.

*Gweler 'Tabl 6: Canlyniadau arolwg llystyfiant ar gopa'r Garn' ar dudalen 38*

Roedd y planhigion blodeuog gerllaw'r llwybr ar y ffordd i fyny o Gwm Idwal trwy'r cae creigiau ar hyd Llwybr y Carw yn amlwg wyrdd, gyda Tywodlys Mwsoglog, Teim Gwyllt ac hefyd Corn Carw yn arbennig o amlwg. Roedd yr ardal hon yn eithriadol hardd oherwydd nifer y rhywogaethau planhigion blodeuog/montane, yn enwedig ar y silffoedd creigiog a charegog ar wyneb y graig o gwmpas Cegin y Diafol. Cofnodwyd rhywogaethau megis Mapgoll, Lili'r Wyddfa, Rhedyn Derw a Bedw, Rhedynach Teneuwe Wilson, Tormaen Piws, Tormaen Piws, y Gronnell, Tormaen Llydandroed a Suran y Mynydd yn yr ardal hon, ond roedd y rhai hyn gryn bellter oddi wrth y llwybrau ac mae'n anhebygol y byddai safleoedd mor anhygyrch yn dioddef ymyrraeth oddi wrth ymwelwyr. Oherwydd hynny nid ydym wedi cynnwys arolygon na chanlyniadau o'r ardaloedd hyn, ond mae'n werth nodi bod y tyfiant yn ymddangos yn arbennig o iraidd eleni, efallai o ganlyniad i'r amodau tywydd yn ystod y gwanwyn.

Roedd Tormaen Serennog i'w weld yn amlwg ac aml yn ystod y daith i fyny ar hyd Crib y Bigod ar ochr ogleddol Glyder Fach, gyda phlanhigion mawr yn tyfu allan o'r agennau y bydd llawer o bobl yn arfer dringo drostynt. Er nad oedd mwyafrif yr ardaloedd ar y copa adeg yr arolygon yn dangos llystyfiant oherwydd natur greigiog y tirwedd ac anhawster eu cyrraedd, cynhaliwyd un arolwg ar gopa'r Garn gan gofnodi cyfanswm o saith rhywogaeth i gyd.

*Tywodlys Mwsoglog (Saxifraga bryoides) gyda Chegin y Diafol yn y cefndir.*



*Gweler 'Tabl 7: Canlyniadau'r arolwg sbwriel ar y prif lwybrau yn ystod y ddwy daith' ar dudalen 38*

### Sbwriel
Roedd yr holldeithiau o gwmpas yr ardal hon yn bleserus ac yn rhydd o sbwriel, ac 11 eitem o sbwriel (4 gwahanol fath) yn unig a gasglwyd: with bag baw ci ar hyd glannau Llyn Idwal, papur melysion, potel blastig a chan diod metel.

## Canfyddiadau Eraill

*Gweler 'Tabl 8: Nodweddion eraill a ganfuwyd yn ystod yr arolygon yn Nyffryn Ogwen' ar dudalen 39*

### Geifr mynydd fferal
Gwelwyd o leiaf 99 gafr yn ystod yr arolygon, y casgliad mwyaf niferus yn cynnwys tua 50 ym Mwlch Tryfan, er y gwelwyd rhagor ar ben y Glyderau ac o gwmpas y Garn; y cyfan yn agos iawn at y prif lwybrau.

### Pryfed
Gydag amodau cynnes a thawel iawn ar yr ail daith (25 Mehefin), cofnodwyd cyfoeth o wahanol bryfed, yn enwedig nifer o rywogaethau yn mynd dros gribau'r mynyddoedd wrth iddynt ymfudo. Roedd hyn yn cynnwys 16 gloyn byw - un Mantell Goch, un Sïednod, un Mantell Dramor, tri Trilliw Bach a saith Trochydd Mawr gwryw. Cofnodwyd hefyd un meicromoth mynydd prin o'r rhywogaeth Phiaris schulziana, yn y gwellt wrth ymyl y llwybr sydd yn arwain i fyny at gopa'r Glyder Fach.

### Lefelau Pori
Roedd irder y llystyfiant yn amlwg o fewn GNG Cwm Idwal, a phresenoldeb nifer fach o ddefaid yn yr ardal hon yn golygu cymysgedd amrywiol o rug, llus a silffoedd creigiog yn llawn planhigion. Roedd dwyster llawer uwch o ddefaid yn yr ardaloedd o gwmpas copaon y Glyderau a'r Garn, a'r cynefin yn cynnwys gan mwyaf laswellt a charped isel o helyg bach mewn rhai mannau. Roedd geifr fferal yn amlwg, gwelwyd tua 100 ohonynt yn ystod y ddau arolwg gan gynnwys un casgliad o 50 gerllaw Tryfan. Roedd gyr o 20-30 o warthog duon Cymreig yn bresennol yn yr ardal rhwng y ganolfan ymwelwyr a Llyn Idwal.

### Pobl
Adeg yr arolwg cyntaf (14eg Mehefin) pump o bobl yn unig a welwyd o gwmpas Llyn Idwal a hynny tuag at ddiwedd yr arolwg, ond roedd nifer o grwpiau yn bresennol o gwmpas y llyn (15 i gyd) ar 25ain Mehefin a dau berson arall ar y grib ger y Glyderau.

*1. Un o'r wyth bag baw ci a gofnodwyd gerllaw llwybr Llyn Idwal*
*2. Gafr mynydd fferal gwerllaw'r llwybr*

1


2


***Tabl 5: Canlyniadau'r arolwg adar nythu o gwmpas Cwm Idwal, Tryfan a'r Glyderau***

*Enw'r safle: Dyffryn Ogwen: Cwm Idwal, Tryfan a'r Glyderau*
*Math o arolwg: Adar nythu*
*Arolygwyr: Ben Porter gyda chymorth Jo Porter a Steve Porter*
*Dyddiadau'r arolygon: 12 Mehefin 2020; 25 Mehefin 2020*

| Rhywogaeth | Enw gwyddonol | Ll1 | Ll2 | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| Corhedydd y Waun | Anthus pratensis | 101 | 68 | **169** |
| Tinwen y Garn | Oenanthe Oenanthe | 18 | 6 | **24** |
| Dryw | Troglodytes troglodytes | 19 | 31 | **50** |
| Clochdar y Cerrig | Saxicola torquata | 6 | 1 | **7** |
| Ehedydd | Alauda arvensis | 3 | 0 | **3** |
| Cigfran | Corus corax | 5 | 10 | **15** |
| Siglen Lwyd | Motacilla alba yarrellii | 3 | 0 | **3** |
| Gwylan y Penwaig | Larus argentatus | 2 | 2 | **4** |
| Pibydd y Dorlan | Actitis hypoleucos | 7 | 2 | **9** |
| Bronwen y Dŵr | Cinclus cinclus | 1 | 0 | **1** |
| Siglen Lwyd | Motacilla cinerea | 8 | 2 | **10** |
| Mwyalchen y Mynydd | Turdus torquatus | 4 | 1 | **5** |
| Bran Dyddyn | Corvus corone | 3 | 1 | **4** |
| Llinos y Mynydd | Carduelis flavirostris | 6 | 0 | **6** |
| Cudyll Cochl | Falco tinnunculus | 1 | 1 | **2** |
| Hwyaden Wyllt | Anas platyrhynchos | 3 | 0 | **3** |
| Bwncath | Buteo buteo | 1 | 5 | **6** |
| Y Gôg | Cuculus canorus | 2 | 0 | **2** |
| Gŵydd Canada | Branta canadensis | 22 | 0 | **22** |
| Robin Goch | Erithacus rubecula | 1 | 1 | **2** |
| Telor yr Helyg | Phylloscopus trochilus | 1 | 0 | **1** |
| Gwyach Fawr Gopog | Podiceps cristatus | 1 | 1 | **2** |
| Creyr Llwyd | Ardea cinerea | 2 | 0 | **2** |
| Barcud Coch | Milvus milvus | 0 | 1 | **1** |
| Gwennol y Bondo | Delichon urbica | 6 | 0 | **6** |
| Gwylan Gefnddu Leiaf | Larus fuscus | 1 | 0 | **1** |
| Llwyd y Gwrych | Prunella modularis | 1 | 0 | **1** |
| Telor Penddu | Sylvia atricapilla | 2 | 0 | **2** |
| **Cyfanswm nifer y rhywogaethau** | | **25** | **15** | **28** |
| **Cyfanswm niferoedd** | | **230** | **133** | **363** |

***Ll1: Cwm Idwal ac Y Garn***
***Ll2: Tryfan a'r Glyderau***

*__Corhedydd y Waun__ – Nythod yn agos i'r llwybrau, gwryw yn canu, cywion llawn plu; __Tinwen y Garn__ – Gwryw yn canu a chywion llawn plu; __Dryw__ – Gwryw yn canu; __Clochdar y Cerrig__ – Cywion llawn plu, gwryw yn canu, adar yn casglu bwyd; __Ehedydd__ – Gwryw yn canu; __Cigfran__ – Llawer o gywion llawn plu mewn grwpiau teuluol; __Siglen Lwyd__ – Un gwryw yn casglu bwyd ar hyd glan Llyn Y Cwn; __Pibydd y Dorlan__ – Tri phâr ar ochr orllewinol Llyn Idwal, un pâr ar lan Llyn Ogwen; __Bronwen y Dŵr__ – Cywion llawn plu; __Siglen Lwyd__ – Parau yn nythu yn agos i'r prif lwybrau, y gwryw yn canu; __Mwyalchen y Mynydd__ – Pâr gyda chywion llawn plu; tri gwryw yn canu; __Bwncath__ – Dau bâr - o bosibl yn nythu; __Y Gôg__ – Gwryw yn canu; __Gŵydd Canada__ – Un teulu gyda saith cyw ar Llyn Idwal; __Robin Goch__ – Gwryw yn canu; __Telor yr Helyg__ – Gwryw yn canu; __Gwyach Fawr Gopog__ – Pâr yn nythu mewn hesg ar ochr ddeheuol Llyn Idwal; __Gwennol y Bondo__ – Casglu mwd ar gyfer leinio eu nythod ar fythynnod Ogwen; __Telor Penddu__ – Gwryw yn canu;*

***Tabl 6: Canlyniadau arolwg llystyfiant ar gopa'r Garn***

*Enw'r safle: Y Garn (SH630596)*
*Math o arolwg: Llystyfiant yn ardal y copa (cylch 10m o gwmpas y copa)*
*Arolygwyr: Ben Porter a Jo Porter*
*Dyddiadau'r arolygon: 14 Mehefin 2020*

| Rhywogaeth | Enw Gwyddonol | Sgôr DAFOR |
|---|---|---|
| Mwsog | - | **Aml iawn** |
| Suran yr Yd | Festuca ovina | **Aml** |
| Maeswellt Cyffredin | Agrostis capillaris | **Aml** |
| Briwydd Wen | Galium saxatile | **Achlysurol** |
| Llus | Vaccinium myrtillus | **Achlysurol** |
| Rhedyn Persli | Cryptogramma crispa | **Achlysurol** |
| Gweunwellt | Poa sp. | **Achlysurol** |
| Gweflogwellt | Festuca vivipara | **Achlysurol** |
| Melyswellt | Anthoxanthum odoratum | **Aml** |
| **Cyfanswm nifer y rhywogaethau** | | **9** |

***Tabl 7: Canlyniadau'r arolwg sbwriel ar y prif lwybrau yn ystod y ddwy daith***

*Enw'r safle: Cwm Idwal a'r Glyderau*
*Math o arolwg: Arolwg sbwriel*
*Arolygwyr: Ben Porter, Jo Porter, Steve Porter*
*Dyddiadau'r arolygon: 14 Mehefin 2020; 25 Mehefin 2020*

| Math o sbwriel | Ll1 | Ll2 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Bagiau baw cŵn | 8 | 0 | **8** |
| Papur melysion | 0 | 1 | **1** |
| Poteli plastig | 0 | 1 | **1** |
| Caniau diod metel | 0 | 1 | **1** |
| **Nifer o fathau sbwriel** | **1** | **3** | **4** |
| **Nifer o eitemau sbwriel** | **8** | **3** | **11** |

***Ll1: Cwm Idwal ac Y Garn***
***Ll2: Tryfan a'r Glyderau***

***Tabl 8: Nodweddion eraill a ganfuwyd yn ystod yr arolygon yn Nyffryn Ogwen***

*Enw'r safle: Dyffryn Ogwen: Cwm Idwal, Tryfan a'r Glyderau*
*Math o arolwg: Cyffredinol*
*Arolygwyr: Ben Porter, Jo Porter a Steve Porter*
*Dyddiadau'r arolygon: 14 Mehefin 2020; 25 Mehefin 2020*

| Rhywogaeth | Enw gwyddonol | Dyddiad | Nifer |
|---|---|---|---|
| Cacwn Llus | Bombus monticola | 14/06 | **50** |
| Helygen Fach | Salix herbacea | 14/06 | **Llawer** |
| Geifr Fferal (1) | - | 14/06 | **14** |
| Geifr Fferal (2) | - | 25/06 | **50** |
| Geifr Fferal (3) | - | 25/06 | **35** |
| Trochydd Mawr | Lasiocampa quercus | 25/06 | **1** |
| - | Phiaris schulziana | 25/06 | **1** |
| Tormaen Serennog | Saxifraga stellaris | 25/06 | **Llawer** |
| Gwas Neidr Eurdorchog | Cordulegaster boltonii | 25/06 | **1** |
| Mantell Goch | Vanessa atalanta | 25/06 | **16** |
| Trilliw Bach | Aglais urticae | 25/06 | **3** |
| Gwalchwyfyn Hofran | Macroglossum stellartarum | 25/06 | **1** |
| Trochydd Mawr | Lasiocampa quercus | 25/06 | **7** |
| Buwch Gota Amryliw | Harmonia axyridis | 25/06 | **1** |
| Mantell Dramor | Vanessa cardui | 25/06 | **1** |

***Cacwn Llus** – Ar lannau Llyn Idwal ar flodau Teim Gwyllt; **Helygen Fach** – Ar hyd y llwybr i gopa'r Garn o'r de-ddwyrain; **Geifr Fferal (1)** – Ar y ffordd i lawr o'r Garn ar hyd ymyl gogleddol Cwm Clyd; Geifr Fferal (2) – Bwlch Tryfan; **Geifr Fferal (3)** – Ardal y copa o gwmpas Castell y Gwynt; **Trochydd Mawr** – Copa Tryfan; **Phiaris schulziana** – Glyder Fach; **Tormaen Serennog** – Crib y Brigod ; **Gwas Neidr Eurdorchog** – Cychwyn Heather Terrace; **Mantell Goch** – Rhwng Glyder Fach, Glyder Fawr a Llyn Bochlwyd; **Trilliw Bach** – Rhwng Glyder Fach, Glyder Fawr a Llyn Bochlwyd; **Gwalchwyfyn Hofran** – Rhwng Glyder Fach, Glyder Fawr a Llyn Bochlwyd; **Trochydd Mawr** – Rhwng Glyder Fach, Glyder Fawr a Llyn Bochlwyd; **Buwch Gota Amryliw** – Ar gopa Glyder Fach; **Mantell Dramor** – Rhwng Glyder Fach, Glyder Fawr a Llyn Bochlwyd;*











*1. Teim Gwyllt(Thymus polytrichus) wrth ymyl y llwybr i fyny o Llyn Idwal i'r cae clogfeini*
*2. Dwarf Willow (Salix herbacea) on Y Garn*
*3. Ger y ganolfan ymwelwyr ar ddechrau'r prif lwybr i gyfeiriad Llyn Idwal*
*4. Starry Saxifr (Saxifraga stellaris) on the ascent to Glyder Fach*
*5. Dwarf Willow (Salix herbacea) on Y Garn*
*6. Cacwn Llus (Bombus monticola) ar Deim Gwyllt (Thymus polytrichus) ger Llyn Idwal.*




Dyffryn Ogwen


















*1. xx*
*2. Mwsog Alpaidd (Diphasiasum alpinum) uwchlaw Llyn Idwal*
*3. xx*
*4. Cyw Bronwen y Dŵr (Cinclus cnclus) ger Llyn Idwal*
*5. xx*
*6. Llyn Ogwen o Tryfan*















***Lluniau pwynt sefydlog i gofnodi cyflwr y llystyfiant***
*1. Man cychwyn y llwybr i Lyn Idwal (P1)*
*2. Hanner ffordd i Llyn Idwal (P2)*
*3. I fyny tuag at Gerrig Idwal (P3)*
*4. I fyny tuag at y sgri cerrig (P4*
*5. I fyny ochr ddeheuol y Garn (P5)*














6


7


8

*6. Ar y ffordd i lawr o'r Garn i gyfeiriad Llyn Idwal (P6)*
*7. Ar ymyl Llyn Idwal (P7)*
*8. Cychwyn i fyny Tryfan (P8)*
*9. Edrych tuag at Llyn Ogwen o waelod ochr gogledd ddwyreiniol Tryfan (P9)*
*10. Dod i lawr o'r Gribbin tuag at Llyn Bochlwyd (P10)*
*11. Dod i lawr o Llyn Bochlwyd i gyfeiriad Llyn Ogwen (P11)*








9


10


11





Ardal Arolygu 3

# Gwarchodfa Natur Geneldaethol Cader Idris

| | |
|---|---|
| Safle | Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cader Idris |
| Dyddiadau'r arolygon | 20 Mehefin 2020<br>26 Mehefin 2020 |
| Llwybrau'r daith | Llwybr y Merlod<br>Llwybr y Llwynog<br>Llwybr Minffordd |

Er mwyn gweld yr ardaloedd amrywiol o gwmpas mynydd enwog Cader Idris, rhannwyd yr arolygon yn ddwy daith: un yn dilyn Llwybr y Merlod o ochr ogleddol Cader Idris hyd at Ty Nant, gan fynd i fyny'r ochr orllewinol at y copa a dychwelyd i lawr yn ôl i'r dyffryn heibio Llyn y Gader a Llyn Gafr (gwnaed y daith hon ar 20 Mehefin 2020); dilynodd yr ail daith Lwybr Minffordd i fyny drwy'r coedydd gerllaw Minffordd ac i Gwm Cau, cyn dringo dros Graig Cau ac yna croesi crib y copa i Fynydd Moel a dychwelyd i ardal Cwm Cau (gwnaed y daith hon ar 26 Mehefin 2020).

Roedd yr arolygon a wnaed yn ystod y ddau ymweliad yn cynnwys cofnodi adar (ac hefyd unrhyw arwyddion eu bod yn nythu), unrhyw arwyddion o symudiadau mamaliaid, swm y sbwriel ganfyddid ar y llwybrau, nodi llystyfiant a thynnu nifer o luniau pwynt sefydlog yma ac acw. Ni chynhaliwyd arolwg llystyfiant ar y copa oherwydd natur greigiog yr ardal a phrinder amlwg o safbwynt planhigion.

Amodau tywydd: ar 20 Mehefin roedd gorchudd cymylau 100% a gwyntoedd ysgafn (<10mya) o gyfeiriad y gogledd orllewin, gyda niwl a glaw ysgafn ar y copa cyn iddi glirio a rhoi amodau poeth a heulog i'r arolwg nes ei gwblhau am hanner dydd (40% gorchudd cymylau). Ar 26 Mehefin roedd 100% gorchudd cymylau gydol yr arolwg, gyda chymylau isel yn symud i mewn tua'r diwedd, roedd y tymheredd yn fwyn iawn (19°C) gyda gwynt ysgafn o'r de orllewin(10-15mya).

Mae ffigyrau 3a a 3b yn amlinellu'r ddwy daith dros Gader Idris ac yn arddangos nifer o bwyntiau y cyfeirir atynt yng ngweddill yr adran ganlyniadau.


*Brithell Werdd (Speyeria aglaja) ar flodyn Mwyar Duon ger Llwybr y Merlod ar Gader Idris*







*Ffigwr 3a/3b: Mapiau o ardal arolwg Cader Idris yn dangos y ddwy daith (llinell felen = Llwybr y Merlod ar 20 Mehefin yn Ffigwr 3a, llinell oren = Llwybr Minffordd ar 26 Mehefin yn ffigwr 3b). Pwyntiau oren yw dechrau a diwedd taith pob arolwg, pwyntiau coch yw'r pwyntiau targed y cyfeirir atynt yng nghrynodeb y canlyniadau, pwyntiau glas yw'r safleoedd tynnu lluniau pwynt sefydlog a phwyntiau gwyrdd yw lleoliadau arolygu llystyfiant.*



*1. Llus (Vaccinium myrtillus) gyda Cyfryw a Llyn Gader yn y cefndir.*
*2. xx*

1



2



## Canlyniadau'r Arolwg

Dros y tudalennau canlynol rhoddir dadansoddiad o ganlyniadau'r arolygon ar gyfer y lleoliad hwn, gan gyfeirio at y map ar gyfer sylwadau penodol i'r lleoliad hwnnw a defnyddio rhifau mewn bracedi.

### Adar

*Gweler 'Tabl 9: Canlyniadau'r arolygon adar ar ddwy daith o gwmpas Cader Idris' ar dudalen 60*

Cofnodwyd cyfanswm o 49 rhywogaeth o adar yn ystod y ddwy daith, sef 36 rhywogaeth ar hyd Llwybr y Merlod a 37 rhywogaeth ar hyd Llwybr Minffordd. Roedd y rhain yn deithiau i arolygu amrywiaeth eang o adar, gan fod yn yr ardal ddigonedd o adar cyffredin megis Corhedydd y Waun, ac hefyd nifer fawr o rywogaethau prinnach yn ogystal. Mae hyn yn sicr yn rhannol oherwydd yr amrywiol gynefinoedd a welwyd yn ystod y teithiau – o ardaloedd coediog ar odrau'r mynydd i gynefinoedd ucheldirol ar grib y mynydd a'r llechweddau o'i gwmpas. Roedd yr amodau tywydd hefyd yn ffafriol iawn gydol yr arolygon, gyda gwyntoedd isel a thymheredd mwyn.

Y rhywogaeth mwyaf cyffredin o bell (unwaith eto!) oedd Corhedydd y Waun, a chofnodwyd 78 ohonynt ar hyd Llwybr y Merlod a 98 ar Lwybr Minffordd, gan gynnwys nifer dda o rai gwrywaidd yn canu a llawer o gywion llawn plu hefyd. Roedd Tinwen y Garn, Clochdar y Cerrig a'r Dryw Bach hefyd i'w gweld yn bur gyffredin, ac roedd cynefin addas iawn ar gyfer adar yn y tir glas corsiog islaw Llyn Cau ar bwynt 8, lle gwelwyd y nifer uchaf o'r rhywogaethau cyffredin hyn, ochr yn ochr gyda rhywogaethau megis Telor yr Helyg, Siglen Lwyd, Titw Tomos Las a'r Llinos.

Nodwyd casgliad ardderchog o rywogaethau prinnach yn ystod yr arolwg, yn cynnwys Crech yr Eithin, Telor y Rhedyn, Cudyll Bach, pump Mwyalchen y Mynydd, a phar o Pibydd y Dorlan, Hwyaden Ddanheddog a nifer fach o adar ysglyfaethus yn ystod yr ail arolwg, yn cynnwys Gwalch, dau Farcud Coch a Hebog Tramor yn hedfan i'r dwyrain gyda'i ysglyfaeth yn ei grafangau.

**Adar yn nythu ar y llwybrau**: roedd digonedd o adar bach yn amlwg iawn ar hyd y llwybrau, ac roedd nifer o rywogaethau cyffredin (Corhedydd y Waun, Tinwen y Garn a Clochdar y Cerrig) wedi nythu ar ymyl y llwybrau neu yn agos iawn atynt ar y ddwy brif daith: roedd Crec y Mynydd gwryw yn galw argyfwng yn agos iawn i'r llwybr yn SH693139 (pwynt 1) ac o bosibl yn nythu gerllaw; ac roedd Troellwr Bach yn canu o ben clwmp o rug wrth ei ymyl (pwynt 1) eto yn agos i'r llwybr.

**Mwyalchen y Mynydd**: roedd yn gyfres o deithiau gynhyrchiol o safbwynt yr aderyn mynydd swil hwn, un aderyn yn codi gerllaw y prif lwybr yn SH703131 (pwynt 4); un aderyn yn galw o'r creigiau islaw Craig Cau yn SH711120 (pwynt 11); dau aderyn yn galw argyfwng o'r creigiau i'r gogledd-ddwyrain o'r Mynydd Moel yn SH729136 (pwynt 10) ac un aderyn yn agos i'r prif lwybr yn SH731127 (pwynt 9).

**Adar ysglyfaethus**: gwelwyd mwy o rywogaethau ysglyfaethus o gwmpas Cader Idris nag mewn unrhyw leoliad arall yr ymwelwyd â hwy. Gwelwyr Cudyll Bach gwryw yn ystod y daith gyntaf yn hedfan tuag at greigiau i'r gogledd o Cyfrwy yn SH696136; gwelwyd cyfanswm o 5 Bwncath, gydag un gwryw yn arddangos yn y cwm o gwmpas Llyn Cau; cofnodwyd Cudyll Coch yn agos i Fynydd Moel yn cyhwfan uwchben y rhostir, a gwelwyd Hebog Tramor yn hedfan tua'r dwyrain gydag ysglyfaeth yn ei grafanc. Gwelwyd dau Farcud Coch a Gwalch yn hedfan uwchben i'r gorllewin dros Lyn Cau yn ystod yr ail daith ar 26ain Mehefin.

**Ar Llyn Gafr**: roedd pâr Pibydd y Dorlan yn bresennol ar y llyn bach hwn (pwynt 6), yn galw argyfwng ac yn debygol o fod yn nythu, yna Hwyaden Ddanhedog yn bwydo yn ei ddyfroedd bâs ac yn gorffwys ar ynys fechan ar ei lan dwyreiniol. Roedd pâr o Wyddau Canada gyda dau gyw hefyd yn bresennol yma.

## Llystyfiant

Roedd yn eglur bod diffyg sathru ar y llwybr wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn llystyfiant a phlanhigion rhwng yr agenau yn y creigiau ac wrth ochr y llwybrau. Roedd Bysedd y Cŵn, Rhedyn a mân dyfiant gwyrdd hyd at uchder pen glin ar ganol y llwybr mewn rhai mannau, a gwelwyd nifer o wahanol flodau hefyd, gan gynnwys Briwydd Wen a Tresgl y Moch. Roedd y llwybr drwy'r fforest o Finffordd i gyfeiriad Cwm Cau wedi ei orchuddio mewn rhai mannau gan dyfiant tew o Redyn a Mieri. Hyd yn oed ar y mannau uchaf a mwyaf agored ar grib y copa, roedd y llwybrau yn parhau dan dyfiant a bron yn anweladwy mewn mannau, gyda chlytiau o wellt a brwyn yn cuddio'r llwybrau sydd fel arfer wedi eu treulio gan gerddwyr.

*Gweler 'Tabl 10: Canlyniadau arolwg planhigion ar Lwybr y Merlod ar lethrau isaf Cader Idris' ar dudalen 62*

Ar y ffordd i lawr i gyfeiriad Llyn y Gader ar y llwybr sgri, serth (5), roedd nifer o flodau Tormaen a chlytiau gwyrdd o Redyn Persli yn tyfu yn yr agenau a'r craciau yn y llwybr. Mae'n debygol na fyddai'r sathru a defnydd arferol o'r llwybr yn caniatau i'r planhigion a enwyd flodeuo na chynyddu yn y mannau hyn.

Roedd yr amrywiaeth fflora ar hyd y crib i'r dwyrain o'r copa i gyfeiriad Mynydd Moel yn fawr iawn, gyda Briwydd Wen, Creiglys y Mynydd, Corn

*1. xx*
*2. xx*


1


2

Cader Idris



*xxx*

Carw, Mwsog Alpaidd a Llus Coch yn eu mysg. Roedd rhai o'r rhain yn tyfu yn agos iawn i'r prif lwybr ac yn agored i gael eu sathru pe byddai pobl yn crwydro oddi ar y llwybr amlwg. Mae'n bosibl y bydd anhawster gweld yr arwyneb mewn ambell fan ar y rhan hwn o'r llwybr yn cynyddu'r sathru unwaith y bydd y llwybr wedi agor eto i'r cyhoedd.

Law yn llaw gyda'r lleihâd mewn sathru ar y llwybrau yr oedd lleihâd amlwg yn y sathru mewn mannau a fyddai fel arfer yn fannau ymgasglu poblogaidd, megis o gwmpas glannau Llyn Cau ac wrth lan yr afon lle mae'r ddau lwybr yn cyfarfod uwchlaw'r fforest yn SH727121. Yn y lle olaf a nodwyd, roedd blodau fel Llafn y Bladur a Tegeirian Brych y Rhos yn tyfu ar ochr llwybr a fyddai fel arfer wedi ei fathru gan bobl yn cerdded ar hyd glan yr afon.

Fel enghraifft o'r amrywiaeth planhigion oedd yn ffynnu mewn rhai mannau ar hyd y llwybr.

## Sbwriel

Roedd hon yn ardal eithriadol o dda o safbwynt diffyg sbwriel. Pump eitem o sbwriel yn unig a ganfuwyd ar hyd y ddau brif lwybr a gerddwyd dros Cader Idris, yn cynnwys cwpan blastig a phapur melysion ar Lwybr y Merlod, a maneg a chap potel blasting ar Lwybr Minffordd. Nid oedd unrhyw arwydd o sbwriel o gwmpas y mannau ymgasglu poblogaidd megis glannau Llyn Cau a chopa Cader Idris, sydd yn rhyfeddol o ystyried maint y sbwriel sydd wedi ei ganfod (hyd yn oed yng nghanol y cyfnod clo) mewn cyrchfannau mynydda poblogaidd eraill yng Ngogledd Cymru.

*Gweler 'Tabl 11: Canlyniadau'r arolwg sbwriel ar hyd y ddau brif lwybr dros Gader Idris' ar dudalen 63*

## Canfyddiadau Eraill

Cofnodwyd casgliad o bryfed - yn enwedig yn ystod yr ail daith. Efallai mai'r mwyaf arbennig ohonynt oedd y Gwalchwyfyn Hofran (Macroglossum stellartarum) a welwyd yn gwibio ar draws crib Craig Cau ar ei daith tua'r gogledd – pryfetyn ymfudol sydd yn gallu teithio pellteroedd eithriadol ar ei adenydd chwim.

*Gweler 'Tabl 12: Nodweddion eraill a welwyd yn ystod y cyfnod arolygu ar Cader Idris' ar dudalen 63*

## Lefelau Pori

Roedd defaid yn pori yn yr ardal cyn cyrraedd y grib ar Lwybr y Merlod, ond nid oedd y lefel yn ddwys ac roedd cymysgedd iraidd o weiriau blodeuog, grug, llus a rhai blodau gwyllt yn ffynnu. Sylwyd bod lefel dwysach o bori gan ddefaid yn amlwg ar fannau uwch ar y mynydd, yn enwedig ar y llethrau ar yr ochr de-orllewinol ar hyd Llwybr y Merlod ac ar hyd y grib i Mynydd Moel. Roedd absenoldeb defaid yn amlwg o gwmpas Llyn Cau ac hefyd roedd dwysedd uchel iawn o adar bach ymhlith y

cynefinoedd niferus ar hyd glan yr afon sydd yn llifo i'r coetir o gwmpas Minffordd.

## Pobl

Ni welwyd pobl yn ystod cyfnod yr arolygon ar Cader Idris.



*Corn Carw (Lycopodium clavatum) a Cnwpfwsogl Alpaid (Diphasiatrum alpinum ar hyd y crib rhwng Cader Idris a Mynydd Moel.*



*Llafn y Bladur (Narthecium ossifragum) yn blodeuo wrth ochr yr afon yn Nant Cader.*

*1. Bysedd y cŵn (Digitalis purpurea) ar lwybr Minffordd.*
*2. Edrych i'r gogledd dros Lyn y Gader o'r crib ar Cader Idris*

1



2



***Tabl 9: Canlyniadau'r arolygon adar ar ddwy daith o gwmpas Cader Idris***

*Enw'r safle: Cader Idris*
*Math o arolwg: Adar nythu*
*Arolygwyr: Ben Porter a Jo Porter*
*Dyddiadau'r arolygon: 20 Mehefin 2020; 26 Mehefin 2020*

| Rhywogaeth | Enw gwyddonol | Ll1 | Ll2 | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| Aderyn Du | Turdus merula | 2 | 2 | **4** |
| Barcud Coch | Milvus milvus | 0 | 2 | **2** |
| Bronfraith | Turdus philomelos | 1 | 0 | **1** |
| Brych y Coed | Turdus viscivorus | 1 | 0 | **1** |
| Bwncath | Buteo buteo | 1 | 4 | **5** |
| Carrion Crow | Corvus corone | 6 | 6 | **12** |
| Chwimwyfyn | Apus apus | 0 | 1 | **1** |
| Cigfran | Corus corax | 3 | 4 | **7** |
| Clochdar y Cerrig | Saxicola torquata | 7 | 16 | **23** |
| Corhedydd y Coed / Brych y Coed | Anthus trivialis | 3 | 1 | **4** |
| Corhedydd y Waun | Anthus pratensis | 78 | 98 | **176** |
| Crech yr Eithin | Saxicola rubetra | 1 | 0 | **1** |
| Cudyll Bach | Falco columbarius | 1 | 0 | **1** |
| Cudyll Coch | Falco tinnunculus | 0 | 1 | **1** |
| Delor y Cnau | Sitta europea | 2 | 5 | **7** |
| Dringwr Bach | Certhia familiaris | 1 | 1 | **2** |
| Dryw Bach | Troglodytes troglodytes | 19 | 32 | **50** |
| Dryw Eurben | Regulus regulus | 0 | 4 | **4** |
| Ehedydd | Alauda arvensis | 9 | 2 | **11** |
| Gwalch | Pandion haliaetus | 0 | 1 | **1** |
| Gwennol | Hirundo rustica | 0 | 3 | **3** |
| Gwennol y Bondo | Delichon urbica | 0 | 8 | **8** |
| Gwybedog Brith | Ficedula hypoleuca | 1 | 1 | **2** |
| Gwybedog Mannog | Muscicapa striata | 0 | 1 | **1** |
| Gwydd Canada | Branta canadensis | 4 | 8 | **12** |
| Gwylan y Penwaig | Larus argentatus | 3 | 2 | **5** |
| Hebog Tramor | Falco peregrinus | 0 | 1 | **1** |
| Hwyaden Ddanheddog | Mergus merganser | 1 | 0 | **1** |
| Ji-binc | Fringila coelebs | 3 | 0 | **3** |
| Llinos | Carduelis cannabina | 2 | 0 | **2** |
| Llinos Bengoch | Carduelis cabaret | 1 | 0 | **1** |
| Llwyd y Gwrych | Sylvia atricapilla | 3 | 4 | **7** |
| Llwyd y Gwrych | Prunella modularis | 4 | 1 | **5** |
| Llwydfron Fach | Sylvia communis | 1 | 0 | **1** |
| Mwyalchen y Mynydd | Turdus torquatus | 1 | 4 | **5** |
| Pibydd y Dorlan | Actitis hypoleucos | 2 | 0 | **2** |
| Pila Gwyrdd | Spinus spinus | 0 | 2 | **2** |
| Robin Goch | Erithacus rubecula | 3 | 5 | **8** |
| Sgrech y Coed | Garulus glandarulus | 0 | 1 | **1** |
| Siff-siaff | Phylloscopus collybita | 0 | 3 | **3** |
| Siglen Lwyd | Motacilla cinerea | 3 | 2 | **5** |
| Telor y Coed | Phylloscopus sibilatrix | 0 | 5 | **5** |
| Telor yr Helyg | Phylloscopus trochilus | 2 | 3 | **5** |
| Tingoch | Phoenicurus phoenicurus | 4 | 0 | **4** |
| Tinwen y Garn | Oenanthe Oenanthe | 10 | 10 | **20** |
| Titw Mawr | Parus major | 3 | 2 | **5** |
| Titw Penddu | Periparus ater | 2 | 2 | **4** |
| Titw Tomos Las | Cyanistes caerulus | 3 | 13 | **16** |
| Troellwr Bach | Locustella naevia | 1 | 0 | **1** |
| **Cyfanswm nifer y rhywogaethau** | | **36** | **37** | **49** |
| **Cyfanswm niferoedd** | | **192** | **261** | **453** |

***Ll1: Llwybr y Merlod***
***Ll2: Llwybr Minffordd***

*Tabl 10: Canlyniadau arolwg planhigion ar Lwybr y Merlod ar lethrau isaf Cader Idris*

*Enw'r safle: Cader Idris (Cychwyn SH698150; Gorffen SH696145; Hyd yr arlowg ~200m)*
*Math o arolwg: Arolwg llystyfiant ar y llwybrau*
*Arolygwyr: Ben Porter*
*Dyddiadau'r arolygon: 20 Mehefin 2020*

| Rhywogaeth | Enw Gwyddonol |
|---|---|
| Tresgl y Moch | Potentilla erecta |
| Llwyn Coegfefus | Potentilla sterilis |
| Y Feddydes Las | Prunella vulgaris |
| Bysedd y Cŵn | Digitalis purpurea |
| Rhedyn | Pteridium aquilinum |
| Mantell Mair | Alchemilla mollis |
| Rhedyn Mair | Athyrium filix-femina |
| Llysiau'r Cwn | Pedicularis sylvatica |
| Ysgall y Gors | Cirsium palustre |
| Maeswellt | Agrostis capillaris |
| Clwbfrwyn y Fawnog | Muhlenbergia rigens |
| Gweunwellt y Mynydd | Poa annua |
| Blodyn Menyn | Ranunculus acris |
| Sêr Hesg | Carex echinata |
| Clust Llygoden | Hyracium polucella |
| Fioled Cyffredin | Viola sp. |
| Milddail | Achillea millefolium |
| Pys y Ceirw | Lotus corniculatus |
| Meillion Gwyn | Trifolium repens |
| Briwydd Wen | Galium saxatile |
| Corwlyddyn | Sagina procumbens |
| Peiswellt Coch | Festuca rubra |
| Rhedyn Pêr | Oreopteris imbosperma |
| Cornbig Cribwyn | Cynosurus cristatus |
| Rhedyn Caled | Blechnum spicant |
| Cyfanswm nifer y rhywogaethau | 26 |

***Bysedd y Cŵn*** *– Planhigion blodeuog yn tyfu ar ganol y llwybr;* ***Rhedyn*** – Dail rhedyn y gorchuddio'r llwybr mewn rhai mannau.

*Tabl 11: Canlyniadau'r arolwg sbwriel ar hyd y ddau brif lwybr dros Gader Idris*

*Enw'r safle: Cader Idris*
*Math o arolwg: Arolwg sbwriel*
*Arolygwyr: Ben Porter a Jo Porter*
*Dyddiadau'r arolygon: 20 Mehefin 2020; 26 Mehefin 2020*

| Math o sbwriel | Ll1 | Ll2 | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| Cwpan blastig | 1 | 0 | **1** |
| Potel ddiod blastig | 1 | 0 | **1** |
| Papur melysion | 1 | 0 | **1** |
| Maneg | 0 | 1 | **1** |
| Cap potel blastig | 0 | 1 | **1** |
| **Nifer o fathau sbwriel** | **3** | **2** | **5** |
| **Nifer o eitemau sbwriel** | **3** | **2** | **5** |

***Ll1: Llwybr y Merlod***
***Ll2: Llwybr Minffordd***

*Tabl 12: Nodweddion eraill a welwyd yn ystod y cyfnod arolygu ar Cader Idris*

*Enw'r safle: Cader Idris*
*Math o arolwg: Nodweddion cyffredinol*
*Arolygwyr: Ben Porter a Jo Porter*
*Dyddiadau'r arolygon: 20 Mehefin 2020; 26 Mehefin 2020*

| Rhywogaeth | Enw gwyddonol | Dyddiad | **Nifer** |
|---|---|---|---|
| - | Aglais urticae | 26/06 | **5** |
| Gem Ffordd Arian | Autographa gamma | 26/06 | **1** |
| Gwalchwyfyn Hofran | Macroglossum stellartarum | 26/06 | **1** |
| Gweirloyn Bach | Coenonympha pamphilus | 26/06 | **7** |
| Britheg Werdd | Speyeria aglaja | 26/06 | **1** |

***Aglais urticae*** *– Llwybr Minffordd a chylch o gwmpas Cader Idris;* ***Gem Ffordd Arian*** *– Llwybr Minffordd a chylch o gwmpas Cader Idris;* ***Gwalchwyfyn Hofran*** *– Craig Cau;* ***Gweirolyn Bach*** *– Llwybr Minffordd a chylch o gwmpas Cader Idris;* ***Britheg Werdd*** *– Ar y ffordd gerllaw Ty Nant.*

1


2



3


1. Crec yr Eithin ar lethrau isaf Cader Idris ar Lwybr y Merlod
2. Cymsygedd liwgar o bryffotau mewn llecyn gwlyb ar Llwybr y Llwynog
3. Blodau Llafn y Bladur
4. Cwnpfwsogl a Chreiglus Alpaidd
5. Plu'r Gweunydd uwchlaw Llyn Gafr
6. Corhedydd y Waun ar Graig Cau





4


5


6




*Lluniau pwynt sefydlog i gofnodi cyflwr llystyfiant*

*1. Cychwyn llwybr y Merlod (P1)*
*2. I fyny tuag at Cader ar hyd Llwybr y Merlod (P2)*
*3. Hanner ffordd i fyny Llwybr y Merlod (P3)*
*4. Llwybr y Merlod ar y grib ger Cyfrwy (P4)*
*5. Ar waelod y sgri i lawr o Gader Idris ger Llyn y Gader (P5)*
*6. Yn y coed ar gychwyn y llwybr (P6).*














7. Tyfiant dros Lwybr Minffordd yn y coetir (P7)
8. Gadael y coetir ar lwybr Minffordd wrth nesu at Nant y Gader (P8)
9. Ar Lwybr Minffordd yn Nant y Gader (P9)
10. Ar lwybr Minffordd tuag at Llyn Cau (P10)
11. Y llwybr tuag at Llyn Cau (P11)
12. Llwybr Minffordd tuag at Graig Cau (P12)















Cader Idris

13



*13. Ar gopa Craig Cau (P13)*
*14. Edrych i gyfeiriad Craig Cau wrth gyrraedd tuag at gopa Cader Idris (P14)*
*15. Ychydig i'r de-ddwyrain o'r copa (P15)*
*16. Llwybr Minffordd rhwng copa Cader Idris a Mynydd Moel (P16)*
*17. Dod i lawr o Mynydd Moel tuag at Nant y Gader (P17)*

14


15


16


17



Ardal Arolygu 4

# Y Carneddau: Yr Elen, Carnedd Llewelyn a Moel Grach

| | |
|---|---|
| Safle | Y Carneddau: Yr Elen, Carnedd Llewelyn a Moel Grach |
| Dyddiadau'r arolygon | 15 Mehefin 2020 |
| Llwybrau'r daith | Cylchdaith ar y prif lwybr o Bethesda |

Un arolwg yn unig a gwblhawyd yn y Carneddau (ar 15 Mehefin 2020), y daith yn cychwyn o bentref Bethesda ar hyd Afon Llafar ac yn dringo dros Foel Ganol a'r Elen i gopa Carnedd Llewelyn. Yna roedd y daith yn dilyn prif lwybr y grib i Foel Grach cyn disgyn i'r dyffryn gan ddilyn yr Afon Wen a throelli o gwmpas ochr y mynydd uwchlaw Afon Caseg yn ôl i Fethesda. Roedd gwelededd ar y copa yn wael iawn ar ddiwrnod yr arolwg oherwydd bod yn niwl yn tewychu, a golygodd storm fawr o fellt a tharannau ganol dydd bod yn rhaid torri'r arolwg yn fyr ac na chafwyd cyfle i arolygu'r holl ardaloedd a fwriadwyd.


Roedd yr arolygon a gyhaliwyd yn ystod yr ymweliad hwn yn cynnwys cofnodi unrhyw adar (yn enwedig adar yn nythu), cyflwr llystyfiant yn gyffredinol ar hyd y daith, unrhyw arwyddion o symudiadau mamaliaid a mesur sbwriel ar y llwybr.

Amodau tywydd: ar gyfer arolwg 15 Mehefin dechreuodd yn glir a heulog (10% gorchudd cymylau), gyda rhai clytiau o niwl a chymylau isel ar dopiau'r mynyddoedd a'r tymheredd yn gynnes (16°C). Erbyn canol dydd

roedd storm fawr o fellt a tharannau wedi datblygu i gyfeiriad y gogledd ac yn symud i gyfeiriad y de tuag at grib y copa, gan ollwng glaw trwm, mellt a tharannau am weddill cyfnod yr arolwg.

Dangosir ffigwr 4 fap o'r daith a'r pwyntiau y cyfeirir atynt yn y canlyniadau.

4




*Ffigwr 4: Map o ardal arolygu'r Carneddau yn dangos y llwybrau a ddilynwyd (llinell felen). Pwyntiau oren yw pwyntiau cychwyn a gorffen yr arolwg, pwyntiau coch yw'r nodiadau targed y cyfeirir atynt yn y crynodeb canlyniadau a phwyntiau glas yw safleoedd tynnu lluniau pwynt sefydlog yma ac acw ar y llwybrau.*

*Gweler 'Tabl 13: Canlyniadau'r arolwg adar ar y Carneddau' ar dudalen 79*

# Canlyniadau'r Arolwg

Dros y tudalennau canlynol rhoddir dadansoddiad o ganlyniadau'r arolygon ar gyfer y lleoliad hwn, gan gyfeirio at y map ar gyfer sylwadau penodol i'r lleoliad hwnnw a defnyddio rhifau mewn bracedi.

## Adar

Cofnodwyd cyfanswm o 22 rhywogaeth adar yn ystod y daith dros Garnedd Llewelyn a Moel Grach ar 15 Mehefin, gyda nifer gyffrous o 310 aderyn wedi eu cofnodi i gyd. Y rhywogaeth mwyaf niferus oedd y Corhedydd y Waun, gyda chyfrif o 131 yn cynnwys nifer fawr o gywion llawn plu ac adar gwryw yn gwarchod eu tiriogaeth. Cofnodwyd hefyd Dinwen y Garn (cyfanswm o 54) a'r Ehedydd (cyfanswm o 40) a dyma'r niferoedd mwyaf i'w cofnodi ar unrhyw un o'r safleoedd arolygu hyd yma. Mae'r canlyniad hwn fwy na thebyg yn adlewyrchu'r gwahaniaeth mewn llystyfiant a chynefin o gymharu â'r safleoedd eraill, gyda llawer mwy o dir glas agored na'r grug, llus a phrysgwydd a welwyd ar y safleoedd eraill.

Y prif darged wrth gynnwys y Carneddau yn yr arolygon hyn oedd asesu ardal y copa rhwng Carnedd Llewelyn a Foel Grach o safbwynt rhydyddion yn nythu, megis Pibydd y Mawn a Hutan y Mynydd; mae rhywogaethau sydd yn bresennol yma yn aml yn sensitif iawn i ymyrraeth gan bobl. Nid oeddem yn gallu canfod unrhyw dystiolaeth bod rhydyddion yn nythu yma yn ystod ein hymweliad arolygu, gan fod niwl wedi cuddio ardal y copa tra buom yno, a bu raid i ni hefyd ddychwelyd o'r ardal hon yn gynt nag yr oeddem yn bwriadu oherwydd bygythiad y storm.

Efallai mai'r canfyddiad mwyaf trawiadol yn yr arolwg oedd Mwyalchen y Mynydd gwryw yn canu yn SH686654 (pwynt 7 yn ffigwr 4), ychydig i'r gorllewin o Foel Grach. Nid oedd cymaint o dystiolaeth i awgrymu bod adar bach megis Corhedydd y Waun yn nythu gerllaw'r prif lwybr, er bod hyn yn rhannol oherwydd bod y 'prif' lwybr yn llawer llai amlwg na'r llwybrau yn yr ardaloedd mwy poblogaidd megis yr Wyddfa a Chwm Idwal.

## Llystyfiant

Mewn llawer adran o'r daith roedd y llwybr wedi tyfu'n las a hyn yn arbennig o amlwg ar y grib rhwng Carnedd Llewelyn a Foel Grach, lle mae'r llwybr fel arfer wedi ei sathru'n llwyr ac yn hawdd ei ddiffinio. Roedd y gorchudd gwellt hwn hefyd yn cynnwys llus a'r helygen fach mewn rhai mannau, yn aml ar ymyl y llwybr. Roedd y mannau lle'r oedd yr helygen

fach fwyaf amlwg yn cynnwys i'r dwyrain o gopa yr Elen yn SH673649 (pwynt 3), i'r gogledd o gopa Carnedd Llewelyn yn SH683643 (pwynt 5) ac ym mhobman o gwmpas ardal copa Foel Grach yn SH688658 (pwynt 8).

Roedd nifer o blanhigion Tormaen Serennog a Rhedyn Persli ar hyd ymyl y llwybr caregog i fyny'r Elen o Foel Ganol (pwynt 2 ar ffigwr 4), rhai ohonynt ar ganol y llwybr. Mae'n anodd dweud a fyddai blodau eiddil y Tormaen yn ffynnu yma o dan lefelau arferol y defnydd o'r llwybr gan gerddwyr.

## Sbwriel

Roedd absenoldeb sbwriel yn amlwg yn ystod yr arolwg o'r Carneddau, a dau eitem yn unig a ganfuwyd ar y daith.

*Gweler 'Tabl 14: Canlyniadau'r arolwg sbwriel ar daith y Carneddau' ar dudalen 80*

## Canfyddiadau Eraill

Cofnodwyd amrywiaeth o nodweddion eraill yn ystod yr arolwg, pryfed yn bennaf yn ystod hanner cyntaf (a chynhesaf) yr arolwg cyn i'r stormydd mellt a tharannau ein taro. Roedd digonedd o'r moth meicro Gweirwyfyn y Gerddi (Chrysoteuchia culmella) yn yr ardal welltog gerllaw'r llwybr yn agos i Afon Llafar (pwynt 1 ar ffigwr 4), a gwelwyd hefyd niferoedd llai o Loynod Bach y Waun (Coenonympha pamphilus) a phump gloyn byw Mantell Goch (Vanessa atalanta) yn hedfan i gyfeiriad y gogledd.

*Gweler 'Tabl 15: Nodweddion eraill a llystyfiant a gofnodwyd o arolwg y Carneddau' ar dudalen 81*

Canfuwyd sgat llwynog ar grib y copa yn SH674648 (pwynt 4 ar ffigwr 4). Hefyd ar grib y copa gwelwyd dyrnaid o bryfed, yn cynnwys un Cacwn Bwm (Bombus jonellus), un Fuwch Goch Gota Saith Smotyn (Cocinella septempunctata) ac un Gwybedyn Hofran (Episyrphus balteatus).

## Lefelau Pori

Yn ystod yr arolwg, gwelwyd bod dwysedd llawer uwch o ddefaid yn pori yn yr ardaloedd hyn nag yn yr ardaloedd mynyddig eraill. Roedd y cynefin ar hyd ardal y llwybr yn parhau i fod yn welltglas ar y cyfan gyda pheth mwsog ar bennau'r mynyddoedd, ond ychydig iawn o rug, llus nac ychwaith eithin a welwyd. Cofnodwyd nifer fach o ferlod y Carneddau (15-20) yn ardal yr Elen, ac hefyd rai gwartheg gerllaw Afon Llafar ar gychwyn yr arolwg.

## Pobl

Gwelwyd tri o bobl yn ystod holl gyfnod yr arolwg, yn y cwm gerllaw Afon Elen wrth i ni ddychwelyd. Roedd olion traed diweddar ar y llwybr ac olion beic mynydd gerllaw copa Carnedd Llewelyn.

*1 a 2. Tormaen Serennog (saxyfraga stellaris ar y llwbr i fyny'r Elen*
*3. Helygen Fach (Salix herbacea yn tyfu ar ben creigiau rhwng Carnedd Llewelyn a Foel Grach*

1


2


3




*Edrych i gyfeiriad Carnedd Llewelyn o'r Elen.*





Y Carneddau

***Tabl 13: Canlyniadau'r arolwg adar ar y Carneddau***

*Enw'r safle: Carneddau*
*Math o arolwg: Adar yn nythu*
*Arolygwyr: Ben Porter a Steve Porter*
*Dyddiadau'r arolygon: 15 Mehefin 2020*

| Rhywogaeth | Enw gwyddonol | Nifer |
|---|---|---|
| - | Anthus pratensis | **131** |
| Tinwen y Garn | Oenanthe Oenanthe | **54** |
| Dryw Bach | Troglodytes troglodytes | **14** |
| Clochdar y Cerrig | Saxicola torquata | **5** |
| Ehedydd | Alauda arvensis | **40** |
| Cigfran | Corus corax | **5** |
| Siglen Fraith | Motacilla alba yarrellii | **1** |
| Gwylan Benwaig | Larus argentatus | **4** |
| Siglen Lwyd | Motacilla cinerea | **5** |
| Mwyalchen y Mynydd | Turdus torquatus | **1** |
| Bran Dyddyn | Corvus corone | **10** |
| Y Gwcw | Cuculus canorus | **1** |
| Barcud Coch | Milvus milvus | **2** |
| Titw Mawr | Parus major | **1** |
| Ji-binc | Fringila coelebs | **1** |
| Llwyd y Gwrych | Prunella modularis | **1** |
| Telor yr Hesg | Emberiza schoenliclus | **1** |
| Ydfran | Corvus frugilegus | **4** |
| Titw yomos Las | Cyanistes caerulus | **1** |
| Gwennol Ddu | Apus apus | **8** |
| Llinos | Carduelis cannabina | **13** |
| Brych y Coed | Turdus viscivorus | **7** |
| **Cyfanswm nifer y rhywogaethau** | | **25** |
| **Cyfanswm niferoedd** | | **230** |

***Anthus pratensis*** *– Cywion llawn plu a gwryw yn canu;* ***Tinwen y Garn*** *– Parau yn nythu gyda chywion llawn plu, gwryw yn canu;* ***Dryw Bach*** *– Gwryw yn canu;* ***Clochdar y Cerrig*** *– Pâr gyda chywion llawn plu;* ***Ehedydd*** *– Gwryw yn canu;* ***Siglen Lwyd*** *– Parau ger Afon Llafar, gwryw yn canu;* ***Mwyalchen y Mynydd*** *– Un gwryw yn canu;* ***Y Gwcw*** *– Un gwryw yn canu;* ***Telor yr Hesg*** *– Un gwryw yn canu;* ***Llinos*** *– Parau gyda chywion llawn plu;* ***Brych y Coed*** *– Pâr gyda chywion* llawn plu.

***Tabl 14: Canlyniadau'r arolwg sbwriel ar daith y Carneddau***

*Enw'r safle: Carneddau*
*Math o arolwg: Arolwg sbwriel*
*Arolygwyr: Ben Porter a Steve Porter*
*Dyddiadau'r arolygon: 15 Mehefin 2020*

| Math o sbwriel | Nifer |
|---|---|
| Plastig lapio | **1** |
| Darn o ffon gerdded | **1** |
| **Nifer o fathau sbwriel** | **2** |
| **Nifer o eitemau sbwriel** | **2** |

***Tabl 15: Nodweddion eraill a llystyfiant a gofnodwyd o arolwg y Carneddau***

*Enw'r safle: Carneddau (Yr Elen, Carnedd Llewelyn a Foel Grach)*
*Math o arolwg: Nodweddion cyffredinol*
*Arolygwyr: Ben Porter a Steve Porter*
*Dyddiadau'r arolygon: 15 Mehefin 2020*

| Rhywogaeth | Enw gwyddonol | Nifer |
|---|---|---|
| Gweirwyfynod y Gerddi | Chrysoteuchia culmella | **Cannoedd** |
| Gweirloynod Bach y Waen | Coenonympha pamphilus | **>20** |
| Mantell Goch | Macroglossum stellartarum | **5** |
| Tormaen Serennog | Saxifraga stellaris | **5** |
| Helygen Fach (1) | Salix herbacea | **Llawer** |
| Baw Llwynog Coch | Vulpes vulpes | **1** |
| Cacwn Bwm | Bombus jonellus | **1** |
| Gwybedyn Hofran | Episyrphus balteatus | **1** |
| Helygen Fach (2) | Salix herbacea | **Llawer** |
| Buwch Goch Gota Saith Smotyn | Coccinella septempunctata | **1** |
| Helygen Fach (3) | Salix herbacea | **Llawer** |

***Gweirwyfynod y Gerddi** – Cannoedd lawer (os nad miloedd) yn y glaswellt ar gychwyn y daith ger Afon Llafar; **Gweirloynod Bach y Waen** – Ar gychwyn y daith gerllaw Afon Llafar; **Mantell Goch** – Hedfan i'r gogledd dros Gwm Pen Llafar; **Tormaen Serennog** – Rhwng copa Foel Ganol a chopa'r Elen; **Helygen Fach** – Rhwng yr Elen a Charnedd Llewelyn; **Baw Llwynog Coch** – Ar y llwybr rhwng yr Elen a Charnedd Llewelyn; **Cacwn Bwm** – Rhwng yr Elen a Charnedd Llewelyn; **Gwybedyn Hofran** – Rhwng yr Elen a Charnedd Llewelyn; **Helygen Fach** – 10 medr i'r gogledd o gopa Carnedd Llewelyn; **Buwch Goch Gota Saith Smotyn** – Gerllaw copa Carnedd Llewelyn; **Helygen Fach** – Ym mhobman o gwmpas ardal copa Foel Grach*

1



2



***Lluniau pwynt sefydlog i gofnodi cyflwr llystyfiant***

*1. Edrych i gyfeiriad copa Carnedd Llewelyn o'r gwastadedd (P1)*
*2. Nesu at Foel Grach (P2)*





Crynodeb o arolygon yr ucheldir

# Trosolwg o'r prif ganfyddiadau yn dilyn arolygu ardaloedd ucheldir Eryri

### Lefelau pori ac aflonyddiad pobl

Yn ystod yr arolygon roedd yn amlwg bod effaith cerddwyr ac ymwelwyr ar y safleoedd yn ardaloedd yr ucheldir yn ail yn unig i effeithiau dwysedd stoc a lefelau pori. Fodd bynnag, roedd rhai sefyllfeydd wedi codi yn sgil diffyg pobl yn yr ardaloedd hyn dros y cyfnod 3 mis o glo, a chrynhoir rhai o'r effeithiau hyn dros y tudalennau canlynol.

### Nifer yr adar a'r nythod ar hyd y llwybrau

Un o'r pethau mwyaf amlwg yn ystod yr arolygon ym mhob ardal oedd nifer fawr y rhywogaethau megis Corhedydd y Waun a Thinwen y Garn ar hyd y prif lwybrau. Roedd nifer o rywogaethau wedi cymryd mantais o'r diffyg aflonyddu ar hyd y llwybrau sydd fel arfer yn brysur, ac wedi nythu ar gyrion y llwybrau, yn cynnwys adar megis y Siglen Fraith a'r Siglen Lwyd. Gwelwyd adar sydd fel arfer yn osgoi pobl yn mentro i gyrion y llwybrau hefyd, gyda Phibyddion y Dorlan yn nythu yn agos i'r prif lwybr gerllaw Llyn Llydaw ar yr Wyddfa, a phâr o Fwyeilch y Mynydd yn nythu gerllaw'r llwybr uwchben Cwm Idwal. Gallai'r prysurdeb nythu hyn fod wedi ei ddifetha pe byddai'r cyfyngiadau clo wedi eu codi yn gynharach, ond gan fod yr ardaloedd hyn ar gau hyd ddechrau Gorffennaf, mae'n debygol y byddai mwyafrif y rhywogaethau wedi gorffen nythu erbyn i'r traffig dynol gynyddu eto.

### Adar yn nythu o gwmpas llynnoedd bach yr ucheldir

Mae glannau llynnoedd megis Llyn Idwal a Llyn Llydaw fel arfer yn fannau poblogaidd i bobl ymgasglu a threulio amser ynddynt pan fyddant yn ymweld â'r ardaloedd hyn. Felly byddai rhywogaethau sydd y bur sensitif

i bresenoldeb pobl yn aml yn dewis nythu mewn mannau sydd yn dioddef yr aflonyddiad lleiaf. Yn ystod yr arolygon hyn, gwelsom o leiaf dri phâr o Bibyddion y Dorlan ar Lyn Llydaw, tri phâr arall (o leiaf) ar Lyn Idwal, a phâr o'r Gwyachod Mawr Copog yn nythu ar gwr deheuol Llyn Idwal. Gallai'r rhywogaethau hyn yn hawdd fod wedi elwa yn sgil y diffyg aflonyddu hwn. Ar y llaw arall, roedd y Gwylanod y Penwaig fwy neu lai yn absennol o'u man nythu ar Glaslyn (yr Wyddfa), sydd fel arfer yn dal poblogaeth nythu o 5-10 pâr. Bydd Gwylanod y Penwaig fel arfer yn byw ar y gwastraff bwyd a deflir gan ymwelwyr ar gopa'r Wyddfa (yn enwedig o gwmpas y caffi) ac ar lannau'r llynnoedd. Roedd diffyg ymwelwyr a'r "bwyd am ddim" yn debygol o effeithio ar eu gallu i oroesi yn yr ardal hon eleni.

## Tŵf llystyfiant ar hyd y prif lwybrau a'r mannau ymgasglu poblogaidd

Roedd llawer o'r hen lwybrau sefydlog wedi tyfu drostynt, gyda gwellt, planhigion blodeuog a llystyfiant arall yn tyfu yn y gofod rhwng y cerrig neu yn ymlusgo o'r ochrau i guddio'r llwybr. Cofnodwyd amrywiaeth eang iawn o blanhigion ar hyd y llwybrau sydd fel arfer wedi eu llwyr sathru, gyda phlanhigion megis Brywydd Wen a Theim Gwyllt yn arbennig o amlwg ar hyd llwybr y Mwynwyr (Yr Wyddfa) a'r llwybr o gwmpas Cwm Idwal. Roedd rhywogaethau prinnach a phur egwan megis Tormaen Serennog, Tormaen Mwsogaidd a'r Helygen Fach wedi tyfu ar hyd y llwybrau mewn rhai mannau hefyd (er enghraifft, gwelwyd Helyg Bach wrth ddynesu at y Garn uwchlaw Cwm Idwal), a fyddai yn arferol wedi eu sathru dan draed. Nodwyd hefyd bod llwybrau mewn mannau gyda llai o bwysau pori gwartheg wedi "tyfu'n wyllt" mewn amser byr, ac ardaloedd gyda rhagor o ddefaid yn dangos llai o newid yng nghyflwr y llystyfiant . Roedd rhan isaf llwybr Minffordd ar Cader Idris, er enghraifft, bron wedi ei orchuddio mewn rhai mannau o dan y coed, gydag Eithin, Mieri a Bysedd y Cŵn wedi meddiannu'r llwybrau sydd fel arfer yn cael eu troedio'n gyson.

Yn cefnogi'r sylwadau hyn, gellir ychwanegu bod rhai mannau ymgasglu poblogaidd megis y copaon hefyd wedi tyfu drosodd mewn rhai mannau. Roedd ardal y Garn a'r ardal o gwmpas copa'r Wyddfa efallai yn fwy amlwg nag unrhyw un arall gyda Tormaen Mwsogaidd a gwelltiau blodeuog yn ffynnu mewn cilfachau ac yn ymledu hyd at radiws o 10-medr. Ar y llaw arall, nid oedd y copaon eu hunain, megis copaon y Glyder Fach a Chader Idris, sydd fwy neu lai yn graig noeth, yn edrych ddim gwahanol i'r arfer.

## Tawelwch a Distawrwydd

Er ei bod yn anodd meintioli a mesur hyn, roedd y tawelwch a'r diffyg sŵn ym mhob un o'r safleoedd hyn yn amlwg iawn yn ystod pob arolwg. O gymorth hefyd o safbwynt hyn oedd y tywydd ffafriol a gafwyd ar ddyddiau'r arolygon eu hunain, ond yn sicr yr oedd yn brofiad arallfydol profi'r distawrwydd perfaith oedd yn teyrnasu dros y tirwedd ym mwyafrif y safleoedd hyn, heblaw am gân yr adar, treigl y dyfroedd a brefiad ambell ddafad (neu afr!).

## Diffyg sbwriel

Er bod gwirfoddolwyr a rhai aelodau o'r cyhoedd yn ymdrechu'n galed i glirio sbwriel ar y llwybrau pan fyddant mewn defnydd, mae'r llwybrau poblogaidd mewn mannau megis Yr Wyddfa bron bob amser yn cynnwys peth swm o sbwriel a adewir unai yn anfwriadol neu yn fwriadol gan yr ymwelwyr mwyaf anghyfrifol. Yn ystod yr arolygon hyn, fodd bynnag, roedd yn amlwg iawn cyn lleied o sbwriel oedd i'w weld ar y llwybrau a'r mannau ymgasglu, heblaw am y mannau poblogaidd y bu pobl yn ymweld â hwy er gwaethaf mesurau y cyfnod clo. Ar yr Wyddfa, er enghraifft, cofnodwyd 75 eitem o 22 gwahanol fathau o sbwriel – nifer uchel iawn o ystyried nad oedd pobl wedi bod yn ymweld ers cymaint o amser. Mewn cyferbyniad â hyn unarddeg darn o sbwriel yn unig a ganfuwyd o gwmpas Cwm Idwal, pump ar Gader Idris gyfan, a dim ond dau ar y Carneddau. Byddid yn disgwyl y byddai addysgu ymwelwyr a magu parch at y safleoedd arbennig hyn yn fodd i osgoi'r lefelau sbwriel a welir weithiau pan fydd yr ardaloedd hyn ar agor. Efallai yn byddai gweld y llwybrau yn lân ac yn glir o sbwriel o gymorth i annog y rhai sy'n ymweld i'w cadw yn yr un cyflwr wrth i'r llwybrau agor i'r cyhoedd unwaith eto?

## Prinder arwyddion o'r Llwynog Coch

Roeddem yn hanner disgwyl y byddai mwy o dystiolaeth bod mamaliaid megis y llwynog coch yn defnyddio'r llwybrau gan nad oedd pobl o gwmpas. Fodd bynnag, canfuwyd llai na deg sgat llwynog ar draws y cyfan o'r safleoedd hyn yn ystod yr arolwg cyfan ac ar hyd yr holl brif lwybrau a arolygwyd, sydd yn dangos nad oeddent yn cael eu defnyddio mor aml ag y tybid. Ond, nodwyd ar lafar gan weithiwr ar lwybr yr Wyddfa ei fod wedi gweld teulu cyfan o Lwynogod Coch ar lwybr y Mwynwyr un diwrnod yn ystod y cyfnod clo. Mae'n bosibl mai prinder bwyd a gweddillion gan ymwelwyr sydd yn gyfrifol am hyn, ac heb unrhyw addewid am fwyd i ddenu'r llwynogod i'r llwybrau, efallai bod mwy ohonynt yn ymweld â'r safleoedd poblogaidd pan fyddant yn brysur a lefel y defnydd ohonynt yn uwch?





Ardal Arolygu 5

# Gwarchodfa Natur Genedlaethol Ceunant Llennyrch

| | |
|---|---|
| Safle | Gwarchodfa Natur Genedlaethol Ceunant Llennyrch |
| Dyddiadau'r arolygon | 12 Mehefin 2020 |
| Llwybrau'r daith | Cylch crwn ar y prif lwybr heibio Rhaeadr Du ac o gwmpas Coed Nyth-y-Frân |


Roedd yr arolwg o goetir Ceunant Llennyrch a cheunant yr afon yn cychwyn wrth y giat ar y ffordd lle mae'r prif lwybr yn cychwyn yng nghyfeirnod grid SH665392. Roedd y daith gyntaf (llinell frown) yn cynnwys y brif gylchdaith oddi yno, drwy'r coetir i'r Rhaeadr Du, ac yn ôl i'r man cychwyn. Roedd yr ail daith (llinell oren) yn cychwyn yng ngheunant yr afon ac yn dilyn llwybr crwn drwy ardal Coed Nyth-y-Frân i'r gorllewin o Afon Prysor. Cynhaliwyd y ddwy daith ar 12 Mehefin 2020.

Roedd yr arolwg yn golygu cofnodi unrhyw adar a welid neu a glywid (yn enwedig unrhyw dystiolaeth ac arwyddion nythu), unrhyw arwydd o symudiadau mamaliaid, sbwriel a chyflwr llystyfiant ar hyd y llwybrau ac yn agos i fannau ymgynnull poblogaidd.

Amodau tywydd: roedd cymylau'n isel ar y cychwyn (100%) yn clirio i 40% cymylau erbyn 11.00, gyda gwynt 15mph o'r gogledd ddwyrain a'r tymheredd yn fwyn (18°C).

Dangosir ffigwr 5 fap o daith yr arolwg drwy Geunant Llennyrch a'r nodiadau targed penodol y cyfeirir atynt yn yr adran canlyniadau.

5




*Ffigwr 5: Map o ardal arolygu Ceunant Llennyrch yn dangos y ddau lwybr teithio a ddilynwyd ar 12 Mehefin 2020: mae'r llinell frown yn dangos y daith gron ar hyd y prif lwybr sydd yn mynd heibio'r prif raeadr sef Rhaeadr Du; mae'r llinell oren yn dangos y daith gron a wnaed drwy ardal goediog Coed Nyth-y-Frân. Pwyntiau oren yw pwyntiau cychwyn a gorffen yr arolwg, pwyntiau coch yw'r nodiadau targed y cyfeirir atynt yn yr adran canlyniadau a phwyntiau glas yw'r safleoedd ffotograffiaeth pwynt sefydlog a ddefnyddiwyd yn bennaf ar y llwybrau.*

# Canlyniadau'r Arolwg

Dros y tudalennau canlynol rhoddir dadansoddiad o ganlyniadau'r arolygon ar gyfer y lleoliad hwn, gan gyfeirio at y map ar gyfer sylwadau penodol i'r lleoliad hwnnw a defnyddio rhifau mewn bracedi.

*Gweler 'Tabl 16: Canlyniadau'r arolwg adar yng Ngheunant Llennyrch' ar dudalen 97*

## Adar

Cofnodwyd cyfanswm o 24 rhywogaeth adar i gyd yn ystod yr arolwg, gyda 24 rhywogaeth ar y llwybr gerllaw Rheadr Du a 22 rhywogaeth ar y daith ehangach drwy Goed Nyth-y-Frân. Y Dryw, Titw Tomos Las a'r Gwybedog Brith oedd y rhywogaethau mwyaf niferus a gofnodwyd, a'r cyfanswm ar gyfer y tri yn 75, 47 a 33. Gwelwyd amrywiaeth o rywogaethau prinnach – nodweddiadol o adar cynefin coed derw gorllewinol, gan gynnwys pump Tingoch, tri Telor y Coed a nifer fawr o'r Gwybedog Brith a grybwyllwyd eisoes. Roedd canfod haid o bump Gylfingroes yn hedfan dros y safle tuag at y coedlannau pinwydd i'r gogledd hefyd yn werth ei gofnodi. Roedd yn anodd canfod yr union rywogaethau a allai fod wedi newid eu harferion oherwydd y defnydd llai o'r safle yn ystod y misoedd cynt sef cyfnod y clo. Fodd bynnag, roedd pâr o'r Siglen Lwyd yn ymddangos i fod yn nythu yn y ceunant i fyny'r afon o Rhaeadr Du, lle y bydd mwyafrif yr ymwelwyr â'r ardal yn ymgasglu fel arfer, a gwelwyd Bronwen y Dŵr llawn plu ychydig i fyny'r afon hefyd. Mae'n anodd dweud os oedd yr aderyn hwn wedi dod o'r nyth ynte o nyth ymhellach i ffwrdd.

## Llystyfiant

Roedd y llwybrau wedi tyfu'n wyllt mewn rhai mannau, yn enwedig gyda rhywogaethau megis rhedyn yn lledu o'r ochrau ac yn cuddio'r llwybr, er mewn rhai mannau roedd yn ymddangos fel pe bai rhywfaint o droedio dynol wedi eu cadw'n glir ac mewn defnydd. Roedd un neu ddau o fannau amlwg lle'r oedd llus a gwellt yn tyfu mewn mannau gaiff fel arfer eu sathru gan bobl.

Efallai mai'r cynefin mwyaf bregus ac un a gaiff ei niweidio gan bobl yn ymweld â'r safle yw'r amrywiaeth mwsog a rhedyn ar greigiau a silffoedd cerrig yn y ceunant ei hun. Buom yn archwilio'r ardal o gwmpas y rhaeadr poblogaidd sef Rhaeadr Du (pwynt 1 ar y map) ac yn tynnu nifer o luniau er mwyn cael cymharu ymhellach ymlaen. Yma gwelwyd ardal lle'r oedd yn debygol bod pobl yn dringo dros greigiau a gwreiddiau coed i gyrraedd gwefl y Rhaeadr Du. Roedd rhedyn, mwsog a gwellt fel pe baent yn ceisio tyfu'n ôl ond roedd yn amlwg y byddai angen mwy na dau fis heb ymyrraeth cyn y byddai rhai o'r mannau oedd wedi eu difrodi yn gwella'n llwyr o'r driniaeth hon.

Roedd yn siomedig canfod un ardal ar ymyl y safle (pwynt 2 ar y map) lle'r ymddengys bod nifer o feiciau modur wedi bod yn defnyddio'r bryncyn pridd fel cae chwarae. Roedd marciau trac teiars yn glir dros y ddaear o dan y coed bedw, ac yn amlwg wedi achosi llawer o niwed i'r gymuned mwsogau bregus a phlanhigion eraill. Roedd pridd noeth yn amlwg mewn nifer o fannau, a maint yr ardal a ddifrodwyd yn mesur tua 50 m sgwar.

## Sbwriel

Canfuwyd cyfanswm o saith eitem gwahanol o sbwriel yn ystod yr arolwg, y cyfan ond un ohonynt ar y traeth cerrig mân ger Rhaeadr Du (pwynt 1 ar y map). Ymddengys bod picnic neu farbeciw bach wedi digwydd ar y traeth a'r gwastraff wedi ei adael yno. Fel arall, un botel blastig yn unig a ganfuwyd yn ystod gweddill y daith.

*Gweler 'Tabl 17: Canlyniadau'r arolwg sbwriel yng Ngheunant Llennyrch' ar dudalen 99*


## Canfyddiadau Eraill


Gwelwyd amryw o draciau mochyn daear yn croesi'r llwybr yn y goedlan, er nad oedd unrhyw ddaearau i'w gweld yn agos i'r prif lwybr. Canfuwyd chwilen Hirgornn sef Saperda scalaris ar lan yr Afon Prysor yn SH667384. Mae hon yn chwilen brin iawn yn y DU ac mewn ambell fan yn unig y'i gwelir – mae'n hoffi hen goetiroedd o ansawdd da megis Coed Llennyrch, felly roedd yn bleser canfod a chofnodi trysor o'r fath yn y safle hwn!

## Pobl

Roedd tri o bobl yn cerdded ar y prif lwybr crwn drwy'r coedydd ar ddiwrnod yr ymweliad arolygu.

*1. Cacwn Bwm (Bombus terrestris) ar Gliniogai Melyn (Melampyrum pratense)*
*2. Un o nifer o olygfannau a gedwir yn agored fel arfer gan bobl, a llystyfiant yn dechrai eu orchuddio.*
*3. xx*

1


2


3


*1. Yr ardal i'r de o Raeadr Du, lle mae'n amlwg fod gwrieddiau coed a chreigiau gyda mwsog arnynt wedi difrodi yn y gorffennol ac nad yw cynnydd araf y planhigion hyd yma wedi arwain at lawn adferiad*
*2. Edrych i lawr dros Rhaeadr Du*

1



2



*3 a 4. Difrod gan feiciau modur i ardal goediog gerllaw'r fynedfa i'r brif goedlan yn SH666391*


3



4



Rhedyn yng ngheunant Afon Prysor









*Tabl 16: Canlyniadau'r arolwg adar yng Ngheunant Llennyrch*

*Enw'r safle: Ceunant Llennyrch*
*Math o arolwg: Adar yn nythu*
*Arolygwyr: Ben Porter a Jo Porter*
*Dyddiadau'r arolygon: 12 Mehefin 2020*

| Rhywogaeth | Enw gwyddonol | Ll1 | Ll2 | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| Corhedydd y Coed | Anthus trivialis | 3 | 0 | **3** |
| Bronfraith | Tudus philomelos | 11 | 4 | **15** |
| Dryw Bach | Troglodytes troglodytes | 53 | 22 | **75** |
| Titw tomos Las | Cyanistes caerulus | 24 | 23 | **47** |
| Gwybedog Brith | Ficedula hypoleuca | 14 | 19 | **33** |
| Aderyn Du | Turdus merula | 12 | 6 | **18** |
| Gwylan y Penwaig | Larus argentatus | 1 | 0 | **1** |
| Telor yr Helyg | Philloscopus trochillus | 10 | 8 | **18** |
| Robin Goch | Erithacus rubecula | 15 | 6 | **21** |
| Telor y Cnau | Sitta europea | 9 | 14 | **23** |
| Pila Gwyrdd | Carduelis spinus | 3 | 4 | **7** |
| Dryw Eurben | Regulus regulus | 3 | 5 | **8** |
| Siff-siaff | Phylloscopus collybita | 4 | 0 | **4** |
| Dringwr Bach | Certhia familiaris | 7 | 2 | **9** |
| Llwyd y Gwrych | Sylvia atricapilla | 15 | 6 | **21** |
| Cigfran | Corvus corax | 1 | 0 | **1** |
| Coch y Berllan | Pyrrhula pyrrhula | 1 | 0 | **1** |
| Siglen Lwyd | Motacilla cinereal | 2 | 0 | **2** |
| Bronwen y Dŵr | Cinclus cinclus | 1 | 0 | **1** |
| Gwybedog Mannog | Muscicapa striata | 1 | 0 | **1** |
| Brych y Coed | Turdus viscivorus | 1 | 0 | **1** |
| Cnocell Fraith Fwyaf | Dendrocopos major | 1 | 6 | **7** |
| Ji-binc | Fringila coelebs | 0 | 5 | **5** |
| Titw Gynffon Hir | Aegithalus caudatus | 6 | 11 | **17** |
| Gwennol | Hirundo rustica | 0 | 1 | **1** |
| Siglen Fraith | Motacilla alba yaerrellii | 0 | 2 | **2** |
| Tingoch | Phoenicurus phoenicurus | 0 | 5 | **5** |

| Rhywogaeth | Enw gwyddonol | Ll1 | Ll2 | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| Coal Tit | Periparus ater | 0 | 3 | **3** |
| Telor y Coed | Phylloscopus sibilatrix | 0 | 3 | **3** |
| Gylfingroes | Loxia curcirostra | 0 | 5 | **5** |
| Sgrech Goed | Garulus glandarulus | 1 | 0 | **1** |
| Titw Penddu | Parus major | 0 | 1 | **1** |
| **Cyfanswm nifer y rhywogaethau** | | **24** | **22** | **32** |
| **Cyfanswm niferoedd** | | **199** | **161** | **360** |

***Corhedydd y Coed** – Gwryw yn canu a chywion; **Bronfraith** – Gwryw yn canu; **Dryw Bach** – Cywion llawn plu, Gwryw yn canu; **Titw tomos Las** – Cywion llawn plu a gwryw yn canu; **Gwybedog Brith** – Gwryw yn canu a Cywion llawn plu; **Aderyn Du** – Cywion llawn plu a pharau yn nythu; **Telor yr Helyg** – Gwryw yn canu; **Robin Goch** – Cywion llawn plu, Gwryw yn canu; **Telor y Cnau** – Parau a galw argyfwng; **Pila Gwyrdd** – Gwryw yn canu; **Dryw Eurben** – Gwryw yn canu; **Siff-siaff** – Gwryw yn canu; **Dringwr Bach** – Gwryw yn canu; **Llwyd y Gwrych** – Cywion llawn plu Gwryw yn canu; **Siglen Lwyd** – Pâr yn nythu yn y ceunant uwchlaw Rhaeadr Du; **Bronwen y Dŵr** – Un cyw llawn plu ar yr afon uwchlaw Rhaeadr Du; **Gwybedog Mannog** – Gwryw yn canu; **Brych y Coed** – Un yn galw argyfwng ac yn debygol o fod yn nythu; **Titw Gynffon Hir** – Cywion llawn plu; **Tingoch** – Dau bâr gyda chywion llawn plu; **Coal Tit** – Gwryw yn canu Dau bâr gyda chywion llawn plu; **Telor y Coed** – Gwryw yn canu.*







***Tabl 17: Canlyniadau'r arolwg sbwriel yng Ngheunant Llennyrch***

*Enw'r safle: Ceunant Llennyrch*
*Math o arolwg: Arolwg sbwriel*
*Arolygwyr: Ben Porter a Jo Porter*
*Dyddiadau'r arolygon: 12 Mehefin 2020*

| Math o sbwriel | **Nifer** |
|---|---|
| Pecyn melysion Haribo | **1** |
| Potel blastig | **1** |
| Gorchydd melysion plastig | **2** |
| Ffoil | **1** |
| Gwelltyn plastig | **1** |
| Potel blastig | **1** |
| **Nifer o fathau sbwriel** | **2** |
| **Nifer o eitemau sbwriel** | **2** |

*Gwelwyd yr holl ddarnau sbwriel ar y traeth cerrig mân ger Rhaeadr Du oni bai am y botel blastig a welwyd ar y llwybr.*











*1. Chwilen Hirgorn (Saperda scalarais) yng Ngheunant Llenyrch*
*2. Tingoch (Phoenicurus phoenicirus)*
*3. Porfa welltog uwchlaw Ceunant Llennyrch*
*4. Gwybedog Brith (Ficedula hypoleuca)*
*5. Coed yng Ngheunant Llenyrch*
*6. Rhedyn yng Ngheunant Llenyrch*












Ceunant Llennyrch










***Lluniau pwynt sefydlog i gofnodi cyflwr llystyfiant***

*1. Mynedfa’r safle (P1)*
*2. Edrych yn ôl tua’r fynedfa wrth y giat i’r coedydd (P2)*
*3. Ar hyd y llwybr drwy’r coed (P3)*
*4. Llwybr drwy’r coed (P4)*
*5. Golygfan yn y coed (P5)*
*6. Llwybr drwy’r coed (P6)*













Ardal Arolygu 6

# Gwarchodfa Natur Genedlaethol Niwbwrch ac Ynys Llanddwyn

| | |
|---|---|
| Safle | Gwarchodfa Natur Genedlaethol Niwbwrch ac Ynys Llanddwyn |
| Dyddiadau'r arolygon | 17 Mehefin 2020 |
| Llwybrau'r daith | Llyn Parc Mawr<br>Fforest Niwbwrch<br>Ynys Llanddwyn |

Er mwyn ymdrïn ag ardal mor eang ag ardal Niwbwrch ac Ynys Llanddwyn, bu raid i ni ganolbwyntio ar bedwar prif safle yn ystod ein hymweliad diwrnod â'r ardal (a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2020). Y pedwar safle oedd Llyn Parc Mawr ar ffin fwyaf gogleddol y safle, y Pwll Twynni o fewn y fforest, Ynys Llanddwyn a'r darn arfordir cyfagos iddo ger y maes parcio, ac yna 'maes parcio traeth Niwbwrch' ar ffin de-ddwyreiniol y safle (gweler y map yn ffigwr 6 trosodd). Wrth deithio rhwng y safleoedd hyn mewn car ar y traciau drwy'r fforest, bu inni oedi ambell waith i archwilio rhannau o'r trac a safleoedd o fewn y fforest am arwyddion o newid yn sgil y cyfnod o leihâd mewn ymweliadau yn ystod y cyfnod clo.

Roedd y prif arolygon a gwblhawyd yn ystod ein hymweliad â Niwbwrch yn cynnwys presenoldeb adar, cyflwr llystyfiant, sbwriel ac unrhyw nodweddion eraill (er enghraifft pryfed neu famaliaid). Rhaid diolch i Nigel Brown am ei gymorth parod yn ystod yr arolwg hwn ac am gyfrannu o'i wybodaeth fotanegol i egluro beth oedd wedi dylanwadu ar y safleoedd hyn yn ystod y misoedd blaenorol.

Amodau tywydd: yr awyr yn gymylog (100% gorchudd cwmwl) i gychwyn, gyda thymheredd mwyn (17'C) a gwyntoedd ysgafn (<5mya). Cliriodd yr awyr erbyn canol dydd a chynhesodd y tymheredd (20°C) cyn i'r cawodydd tarannau gyrraedd yn hwyr yn y prynhawn.

Dangosir ffigyrau 6–7 y daith arolygu o gwmpas Niwbwrch a'r safleoedd arolygu yr ymwelwyd â hwy.





*Ffigwr 6: Map o ardal arolwg Niwbwrch yn dangos y daith (llinell goch) a'r safleoedd arolwg (pwyntiau oren) yr ymwelwyd â hwy yn ystod yr ymweliad ar 17 Mehefin 2020.*






*Ffigyrau 7: Mapiau yn dangos pob un o'r safleoedd arolwg o fewn Niwbwrch. Mae'r llinell goch yn dangos y daith a gymerwyd drwy'r ardal; pwyntiau coch yw'r nodiadau targed y cyfeirir atynt yn y crynodeb canlyniadau a phwyntiau glas yw'r safleoedd tynnu lluniau pwynt sefydlog a dargedir amlaf ar y llwybrau a'r traciau.*

*Ffigwr 7a: Lleoliad Llyn Parc Mawr*




*Ffigwr 7b: safle 'pyllau twyni' Niwbwrch*






*Ffigwr 7c: Ynys Llanddwyn*




*Ffigwr 7ch: Lleoliad maes parcio traeth Niwbwrch*

*1. Bran goesgoch (Pyrrhocorax pyrrhocorax) ger Tŵr Mawr ar Ynys Llanddwyn*
*2. Un o'r ddwy Fran Goesgoch ym mhen draw Ynys Llanddwyn. Roedd yr aderyn hwn wedi ei fodrwyo gyda modrwyau lliw ond wedi colli nifer ohonynt, gan ei gwneud yn anodd olrhain ei hanes.*
*3. Maglys ar y trac 4×4 yn y fforest rhwng Llyn Parc Mawr ac ardal y pwll twynni*









*Cymysgedd o Gelyn Môr (Eryngium maritimum), Tywodlys (Hockenya peploides) a Chlymwellt (Leymus arenarius) ar y morlan o gwmpas yr ardal lle ceir mynediad i Ynys Llanddwyn yn SH390633.*







## Canlyniadau'r Arolwg

Dros y tudalennau canlynol rhoddir dadansoddiad o ganlyniadau'r arolygon ar gyfer y lleoliad hwn, gan gyfeirio at y map ar gyfer sylwadau penodol i'r lleoliad hwnnw a defnyddio rhifau mewn bracedi.

*Gweler 'Tabl 18: Canlyniadau'r arolwg adar yn Niwbwrch' ar dudalen 120*

### Adar

Cofnodwyd cyfanswm o 323 aderyn o 42 rhywogaeth ar draws y cyfan o'r pedwar safle o gwmpas Niwbwrch—18 rhywogaeth yn Llyn Parc Mawr, 11 rhywogaeth yn ardal y pwll twyni, 25 rhywogaeth ar Ynys Llanddwyn a thri ar y traeth wedi gadael y maes parcio. Gwelwyd nodweddion ardderchog yn ystod yr arolwg, gan gynnwys Telor y Coed yn canu ym mynedfa Llyn Parc Mawr, pâr o Frain Coesgoch o gwmpas trwyn Ynys Llanddwyn, pedair Hwyaden Mwythblu mewn bae ar Ynys Llanddwyn a Gwybedog Mannog ar ymyl de-ddwyreiniol y fforest. Dros y tudalennau canlynol rhoddir crynodeb o'r prif ganfyddiadau, gan roi sylw penodol i'r rhywogaethau hynny a allai fod wedi teimlo effaith y cyfnod o leihâd mewn defnydd ac aflonyddiad gan bobl yn ystod y gwanwyn eleni.

**Adar gwyllt a rhydyddion o gwmpas Llyn Parc Mawr (1)**: roedd dwy Hwyaden Gopog gyda dau nythaid o gywion yn nofio ar Llyn Parc Mawr, un hwyaden gyda phedwar cyw a'r llall gyda naw cyw ac hefyd un cyw mwy o faint, o nythaid cynt efallai. Roedd tair Pioden Fôr yn bresennol ar hyd glan y llyn lle roedd yr ymyl yn fwy sych a thywodlyd oherwydd lefel isel y dŵr. Roedd un cyw llawn plu yn werth ei weld, yn agos iawn i'r guddfan ac yn cadarnhau bod y rhydiwr swil hwn wedi nythu o gwmpas y llyn eleni. Nid oedd unrhyw arwydd bod Cwtiad Torchog Bach o gwmpas glannau'r llyn fel yr oeddem yn gobeithio o ystyried bod yma gynefin addas a llai o aflonyddwch dros gyfnod y gwanwyn.

**Telor y Coed gerllaw Llyn Parc Mawr (2)**: roedd gweld Telor y Coed yn canu gerllaw giat mynedfa Llyn Parc Mawr (cyf. grid SH412669) yn gofnod ardderchog i'r ardal gan ei fod yn ymwelydd prin â'r fforest. Mae presenoldeb aderyn gwryw yn canu yn arwydd sicr y gallai'r rhywogaeth fod yn nythu yma y gwanwyn hwn, ond byddai angen arolygon pellach i gadarnhau hyn.

**Adar y glannau yn ardal Ynys Llanddwyn**: roedd Piod Môr yn niferus o gwmpas arfordir Ynys Llanddwyn, a chofnodwyd tua 14 aderyn yn cynnwys o leiaf bump pâr. Roedd nifer o'r parau hyn yn galw argyfwng wrth i ni fynd heibio, mwy na thebyg oherwydd eu bod yn nythu ar y rhan hwn o'r arfordir, a gwelwyd nyth gyda thri ŵy ynddo ar ymyl gogleddol yr

ynys (10). Mae'r rhywogaeth hwn yn sensitif iawn i ymyrraeth ac efallai eu bod wedi manteisio ar y diffyg ymwelwyr gan nythu mewn mannau a fyddai fel arfer yn llawer llai addas oherwydd presenoldeb dynol. Gwelwyd pedair Hwyaden Fwythblu yn clwydo ar graig ar ochr de-ddwyreiniol yr ynys (6), sef tri gwryw ac un fenyw. Mae'n anodd dweud os oedd yr adar hyn wedi bod yn nythu yma eleni oherwydd y lleihâd yn nifer ymwelwyr, ond ni welwyd cywion nac adar ifanc. Roedd pâr o Gwtiaid Torchog yn nythu ar y traeth bach islaw Tŵr Bach ar ben deheuol Ynys Llanddwyn (9). Roedd yr adar yn ymddangos fel pe baent yn gori ar wyau ond ni allem ganfod union leoliad y nyth. Mae'r safle hwn yn boblogaidd iawn gydag ymwelwyr â Llanddwyn, ac yn wir tra buom yno gwelsom un person oedd yn beicio o gwmpas yr ynys yn oedi am egwyl yn agos i'w safle nythu gan achosi cryn ddychryn i'r adar. Mae'n anhebygol a fyddai'r rhydyddion hyn wedi nythu yma onibai am y lleihâd yn y defnydd o'r ardal gan bobl, dim ond gobeithio eu bod wedi llwyddo i fagu eu cywion cyn i nifer yr ymwelwyr â'r ardal gynyddu.

**Brain Coesgoch ar Ynys Llanddwyn**: roedd pâr o Frain Coesgoch yn bwydo ar y creigiau islaw Tŵr Mawr ar ben pellaf Ynys Llanddwyn (8) ac yn werth eu gweld. Hedfannodd yr adar i ffwrdd ar hyd glan ogleddol yr ynys, gan aros ymhellach ymlaen mewn ardal lle'r oedd blwch nythu wedi ei osod ar gyfer Brain Coesgoch. Fodd bynnag, nid oedd eu hymddygiad cyffredinol yn dangos eu bod yn barod i nythu, ond roedd yn galonogol gweld pâr ar y safle hwn mewn cynefin addas ar gyfer nythu.

## Llystyfiant

Mae Niwbwrch yn ardal adnabyddus ledled y DU oherwydd ei hamrywiaeth eang o gynefinoedd a'r casgliad planhigion anhygoel sydd ynddi ac mae hefyd yn ardal bwysig iawn am fod ynddi lawer o rywogaethau prin a rhai ohonynt dan fygythiad. Yn ystod yr arolwg hwn buom yn gwneud arolwg o rai o'r safleoedd pwysig hyn i asesu'r modd y gall cyfnod o ddefnydd llai gan bobl effeithio arnynt. Ar y cyfan, roedd y llwybrau ac ardaloedd y meysydd parcio yn llawer mwy iraidd nag arfer, yn tyfu cymysgedd gwyrdd o blanhigion a blodau gwyllt mewn mannau sydd fel arfer wedi eu sathru gan bobl neu draffig a'r llygredd awyr a ddaw yn ei sgil. I ffwrdd oddi wrth y llwybrau, roedd y safleoedd allweddol ar gyfer rhai o'r rhywogaethau prin wedi dioddef llai o ymyrraeth ac roedd yr amodau tywydd yn ystod y gwanwyn yn debygol o fod wedi bod o gymorth mawr i gynnal eu cyflwr. Dros y tudalennau canlynol ceir amrywiaeth o sylwadau allweddol a wnaed yn ystod yr arolygon o gwmpas Niwbwrch, gydag adran yn y canlyniadau wedyn yn cyflwyno'r lluniau pwynt sefydlog er mwyn cofnodi cyflwr y cynefinoedd o gwmpas y meysydd parcio ac ar hyd y llwybrau.

*Gweler 'Tabl 19: Canlyniadau arolwg planhigion ym maes parcio traeth Niwbrwch' ar dudalen 122*

*Planhigion ar y prif lwybr o gwmpas Llanddwyn: Troedrudd (Geranium sanguineum); Llyriad Corn Carw(Plantago coronopus) a Llyriad Llydanddail (Plantago major).*



*1. Penigen y Forwyn (Dianthus deltoides) ar Ynys Llanddwyn*
*2. Golwg cyfagos o'r Gorfanc Eiddew (Orbanche hederae) yn tyfu gerllaw y llwybr o amgylch Ynys Llanddwyn*
*3. Tafod yr Ych (Echium vulgare) ym mhrif faes parcio Niwbwrch*

1


2


3




*Pansi Las (Viola tricolor ssp.curtisii) ym maes parcio traeth Niwbwrch*

**Planhigion yn blodeuo ar hyd y traciau yn y fforest**: roedd amrywiaeth liwgar o blanhigion blodeuog yn ffynnu ar ochrau'r traciau 4×4 yn y fforest, gyda rhywogaethau megis y Blucen Felen, pigau o'r Maglus a charpedi o Dafod yr Ych i'w gweld ym mhobman. Roedd irder y planhigion hyn yn amlwg iawn, er ei bod yn anodd cymharu hyn gyda'r arferol heb waelodlin.

**Llystyfiant ifanc ar y twynni a llystyfiant morlan gerllaw ac o gwmpas Ynys Llanddwyn**: gyda llai o bobl yn cerdded i gyfeiriad Ynys Llanddwyn ac yn ôl ar hyd y traeth a'r twynni gerllaw, credid y gallai rhai o'r planhigion yn y twynni fod ar eu mantais oherwydd hyn. Gwnaed arolwg o'r traeth hyd at Ynys Llanddwyn (cyf grid SH395636) a rhan o Ynys Llanddwyn ei hun (cyf grid SH390634) ond ychydig o wahaniaeth a welwyd yn y mathau planhigion ar y morlan, heblaw Môr Hesg, Clymwellt, Tywodlys a Chelyn Môr. Roedd mwy o amrywiaeth ar y morlan o gwmpas yr ardal lle ceir mynediad i Ynys Llanddwyn yn SH390633 gyda thyfiant dwysach o'r rhywogaethau hyn, er ar y cyfan nid oedd y fflora ar y morlan yn gyfoethog iawn. Mae'n debygol bod y fflora morlan yn llai amrywiol eleni yn dilyn yr amodau stormus a brofwyd yn y gaeaf a'r gwanwyn, oedd yn tanseilio cymunedau planhigion oedd yno'n barod ac yn llwyddo i olchi ymaith hadau ac eginau a fyddai wedi ffynnu erbyn hyn. Felly, mae asesu effaith y diffyg ymwelwyr a'r lleihâd mewn sathru yn anodd. O ystyried y diffyg amrywiaeth mewn fflora er gwaethaf y lleihâd mewn defnydd, mae'n bosibl y byddai defnydd a throedio arferol ar y morlan yn golygu mai gwael iawn fyddai eu cyflwr.

**Blodau ar y llwybr o gwmpas Ynys Llanddwyn**: roedd ymylon y prif lwybr o gwmpas Ynys Llanddwyn yn fyw gan weiriau, blodau gwyllt a phlanhigion eraill—roedd hyn yn adlewyrchu cyflwr cyfoethog llystyfiant yr ynys yn gyffredinol, ond hefyd roedd yn debygol eu bod wedi elwa yn sgil y diffyg tramwyo gan bobl. Roedd Troedrudd yn rhywogaeth blodau gwyllt cyffredin iawn ar hyd y llwybrau, ac hefyd blodau megis Gwalchlys (Crepis sp) a rhywogaethau prinnach byth fel Tegeiran Bêr a Gorfanc Eiddew. Gwelwyd Hesg Twysennog (Carex otrubae) yn agos at giat mynediad i Llanddwyn, gellir cysylltu coloneiddio diweddar yn yr ardal hon o bosibl gyda'r cyfnod clo.

Mewn rhai mannau roedd y rhan mwyaf agored o'r llwybr ar hyd ochr ogleddol yr ynys wedi ei orchuddio gan weiriau a gwahanol blanhigion, a'r llwybr mewn ambell fan wedi tyfu'n wyllt gyda'r rhywogaethau hyn.

Un canfyddiad gwerth ei nodi oedd casgliad bach o Benigan y Forwyn (Dianthus deltoides) nepell oddi wrth y prif lwybr wrth ddod i mewn i Ynys Llanddwyn yn SH390632. Mae hwn yn rywogaeth Cenedlaethol Brin ac i'w ganfod mewn llai na 100 hectad yn y wlad, ac mae'n brin iawn

Niwbwrch ac Ynys Llanddwyn







*Golygfa dros y maes parcio yn dangos tyfiant blodau gwyllt, yn arbennig Tafod yr Ych (Echium vulgare) a Rhuddygl Poeth (Armoracia Rusticana) ar yr ochrau ac oddi mewn i'r mannau parcio eu hunain.*





yng Nghymru gyda dwy boblogaeth yn unig ohono yng Ngogledd Cymru (yn Niwbwrch a Deganwy). Roedd yn hysbys yn Niwbwrch tua 1915 yn unig, a'r prif dyfiant ar y twynni agored. Ail ddarganufwyd ef yn 2017 wedi absenoldeb o hanner can mlynedd, felly roedd y canfyddiad hwn o blanhigyn 'coll' yn ddiddorol iawn ond mae nifer y blagur a'r blodau eleni (50) yn gynnydd sylweddol ar y cyfrif yn 2017 (25).

Planhigyn arall oedd i'w weld yn ffynnu o gwmpas y llwybrau oedd y Gorfanc Eiddew (Orobanche hederae). Y casgliad hwn ar Llanddwyn yw'r unig un ar arfordir gorllewinol Ynys Môn ond mae'n debygol mai hwn yw'r casgliad mwyaf ar yr ynys gyfan o ystyried ei niferoedd a'i ledaeniad yn ystod yr arolwg ar 17 Mehefin. Gwnaeth y botanegydd a'r naturiaethwr lleol, Nigel Brown, y sylw nad oedd ef erioed wedi gweld y planhigyn yn tyfu ar ganol ac ar ochr llwybrau fel y'i gwelwyd yn ystod yr ymweliad hwn.

**Planhigion o gwmpas maes parcio traeth Niwbwrch (SH405635)**: efallai mai un o'r darganfyddiadau mwyaf cyffrous oedd canfod blodau gwyllt yn tyfu o gwmpas prif faes parcio y warchodfa ym mhen de-ddwyreiniol ardal Niwbwrch. Yma roedd y maes parcio, sydd fel arfer mor brysur, wedi ei orchuddio gan rywogaethau megis Tafod yr Ych a Tagaradr, yn tyfu drwy'r sylfaen graeanog yn y mannau parcio. Roedd yr ochrau a'r mannau gwelltog o gwmpas y maes parcio wedi eu gorchuddio'n fwy trawiadol byth, gyda rhywogaethau fel Pansi Las, Rhuddgoch, Briwydd Felen, Hocys a hyd yn oed planhigion mawr fel Rhuddygl Poeth yn tyfu yn gymysg gyda thyrau pigog Tafod yr Ych; y cyfan yn edrych yn llawer mwy niferus nag arfer. Roedd canfod Melengu (Reseda luteola) mewn un ardal o'r maes parcio hefyd yn wir werth ei nodi gan ei fod o bosibl y cofnod cyntaf ohono yn yr ardal hon o Niwbwrch. Roedd yr ardaloedd o gwmpas y biniau ailgylchu a'r safleoedd cloi beiciau hefyd wedi tyfu drosodd. Mae'r rhestr rhywogaethau ar dudalen 122 yn rhoi amlinelliad o'r rhywogaethau mwyaf trawiadol oedd i'w gweld o gwmpas y maes parcio, a'r lluniau yn cofnodi'r maes parcio yn mynd yn 'lliwgar wyllt'.

**Planhigion o amgylch yr ochrau wrth y fynedfa a'r man talu yn Niwbwrch (cyf. grid SH414649)**: Mae parcio answyddogol yma wedi cynyddu ers i'r brif ffordd i mewn fod ar gau i'r cyhoedd, ac ymddengys bod yr ochrau oedd yn llawn tyfiant ac yn cynnwys perlysiau wedi ei erydu mewn mannau ar y safle hwn. Mae hefyd yn bosibl bod poblogaeth planhigyn arall sydd yn lleol iawn i Ynys Môn—sef Tormaen y Weirglodd (Saxifraga granulata) wedi dioddef o achos hynny yn y fan hon.

*Gweler 'Tabl 20: Canlyniadau'r arolwg sbwriel yn Niwbwrch' ar dudalen 122*

*Gweler 'Tabl 21: Nodweddion cyffredinol a welwyd yn ystod yr arolwg yn Niwbwrch' ar dudalen 123*

## Sbwriel

Roedd yn galonogol iawn cofnodi lefel mor isel o sbwriel yn ystod diwrnod cyfan yr arolwg, tri eitem yn unig a welwyd a hynny o gwmpas mainc bicnic yn y maes parcio gerllaw Ynys Llanddwyn.

## Canfyddiadau Eraill

Gwelwyd nifer o nodweddion eraill gwerth sôn amdanynt yn ystod y diwrnod arolygu. Gydag amodau cynnes a thawel yn ail hanner y bore daeth nifer fawr o wyfynnod a gloywod byw i'r golwg yn enwedig o gwmpas arfordir Ynys Llanddwyn. Y rhai mwyaf trawiadol efallai o'r gwyfynnod hyn oedd dros 20 o'r Bwrned Chwe Smotyn, 10 neu fwy o'r Gragen Felen a phump Britheg Werdd, ac hefyd dri lindys y gwyfyn Ymerawdr, amryw o Chwilod Dail Poplys a'r meicro wyfyn Grapholita compositella a welwyd mewn ardal gorsiog o wellt yn agos i weddillion yr hen adeiladau ar Ynys Llanddwyn. Mae nifer y gwyfynnod Cragen Felen yn sicr yn werth ei nodi, gan ei fod yn llawer uwch na'r arferol i Llanddwyn (yn arferol, rhyw un yn unig o'r rhywogaeth hwn a welir mewn diwrnod yma). Mae'n anodd dweud yn union pam y gwelwyd cymaint o wyfynnod er y gallai diffyg tramwyo ar y llwybrau fod o gymorth i'r lindys oroesi o dan wyneb y pridd. Daeth Morlo Llwyd gwryw i'r wyneb mewn bae bach gerllaw Ynys y Clochydd ar Ynys Llanddwyn (yn agos i pwynt 6 ar y map yn ffigwr 7c). Un Wiwer Goch yn unig a welwyd gydol y dydd arolygu, yn agos i'r giat mynediad ym mhen gogledd-ddwyreiniol y safle (cyf. grid SH414648). Ymddengys nad oedd y prif flychau bwydo sydd wedi eu dosbarthu yn y mannau poblogaidd ledled y fforest wedi eu llenwi yn rheolaidd (wrth reswm), ac mae hyn o bosibl wedi effeithio ar batrwm hel bwyd y mamaliaid llawn cymeriad yma yn y fforest.

## Pobl

Roedd dau o bobl ar ben pellaf Ynys Llanddwyn (un ar feic modur; y llall wedi bod allan yn y môr yn nofio) a nifer o feicwyr ar y traciau yn y fforest ei hun.

***Tabl 18: Canlyniadau'r arolwg adar yn Niwbwrch***

*Enw'r safle: Nibwrch ac Ynys Llanddwyn*
*Math o arolwg: Adar yn nythu*
*Arolygwyr: Ben Porter, Jo Porter a Nigel Brown*
*Dyddiadau'r arolygon: 17 Mehefin 2020*

| Rhywogaeth | Enw gwyddonol | Ll1 | Ll2 | Ll3 | Ll4 | **Cyf.** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llwyd y Gwrych | Sylvia atricapilla | 3 | 2 | 0 | 0 | **5** |
| Robin Goch | Erithacus rubecula | 2 | 1 | 0 | 0 | **3** |
| Ji-binc | Fringila coelebs | 2 | 0 | 1 | 0 | **3** |
| Cnocell Brith Mwyaf | Dendrocopos major | 1 | 0 | 1 | 0 | **2** |
| Siff-siaff | Phylloscopus collybita | 1 | 0 | 1 | 0 | **2** |
| Llinos | Carduelis cannabina | 1 | 4 | 15 | 0 | **20** |
| Aderyn Du | Turdus merula | 3 | 0 | 0 | 0 | **3** |
| Dryw | Troglodytes Troglodytes | 3 | 3 | 0 | 0 | **6** |
| Dringwr Bach | Certhia familiaris | 1 | 1 | 0 | 0 | **2** |
| Titw Mawr | Parus major | 1 | 0 | 0 | 0 | **1** |
| Bronfraith | Turdus philomelos | 1 | 1 | 0 | 0 | **2** |
| Hwyaden Gopog | Aythya fuligula | 20 | 0 | 0 | 0 | **20** |
| Hwyaden Lwyd | Anas strepera | 3 | 0 | 0 | 0 | **3** |
| Pioden y Môr | Haemotopus ostralegus | 4 | 0 | 14 | 90 | **108** |
| Creyr Llwyd | Ardus cinerea | 1 | 0 | 0 | 0 | **1** |
| Iar Ddŵr | Gallinula chloropus | 4 | 0 | 0 | 0 | **4** |
| Hwyaden Wyllt | Anas platyrhynchos | 6 | 0 | 0 | 0 | **6** |
| Telor y Coed | Phylloscopus sibilatrix | 1 | 0 | 0 | 0 | **1** |
| Titw Gynffon Hir | Aegithalos caudatus | 0 | 5 | 0 | 0 | **5** |
| Llwydfron Fach | Sylvia communis | 0 | 2 | 1 | 0 | **3** |
| Telor yr Helyg | Phylloscopus trochilus | 0 | 4 | 0 | 0 | **4** |
| Dryw Eurben | Regulus regulus | 0 | 1 | 0 | 0 | **1** |
| Titw Benddu | Periapus ater | 0 | 4 | 3 | 0 | **7** |
| Asgell Aur | Carduelis carduelis | 0 | 0 | 1 | 0 | **1** |
| Pila Gwyrdd | Carduelis spinus | 0 | 0 | 1 | 0 | **1** |
| Siglen Fraith | Moticilla alba yarrellii | 0 | 0 | 2 | 0 | **2** |
| Ehedydd | Alauda arvensis | 0 | 0 | 3 | 0 | **3** |
| Gwylan y Penwaig | Larus argentatus | 0 | 0 | 16 | 0 | **16** |
| Gwennol | Hirundo rustica | 0 | 0 | 5 | 0 | **5** |
| Gwennol y Bondo | Delichon urbica | 0 | 0 | 2 | 0 | **2** |
| Corhedydd y Graig | Anthus petrosus | 0 | 0 | 15 | 6 | **21** |
| Corhedydd y Waun | Anthus pratensis | 0 | 0 | 17 | 0 | **17** |
| Clochdar y Cerrig | Saxicola torquata | 0 | 0 | 6 | 0 | **6** |
| Gwylan Gefnddu | Larus marinus | 0 | 0 | 3 | 0 | **3** |
| Bilidowcar | Phalocrocorax carbo | 0 | 0 | 3 | 0 | **3** |
| Môr Wennol | Sterna sandviscensis | 0 | 0 | 5 | 0 | **5** |
| Bran Goesgoch | Pyrrhocorax pyrrhocorax | 0 | 0 | 2 | 0 | **2** |
| Cwtiad Torchog | Charadrius hiaticula | 0 | 0 | 2 | 0 | **2** |
| Gwylan Benddu | Chroicocephalus ridibundus | 0 | 0 | 10 | 0 | **10** |
| Gannet | Morus bassinus | 0 | 0 | 6 | 0 | **6** |
| Bran Dyddyn | Corvus corone | 0 | 0 | 5 | 0 | **5** |
| Gwybedog Mannog | Muscicapa striata | 0 | 0 | 0 | 1 | **1** |
| **Cyfanswm nifer y rhywogaethau** | | **18** | **11** | **25** | **3** | **42** |
| **Cyfanswm niferoedd** | | **58** | **28** | **140** | **97** | **323** |

***Ll1: Llyn Parc Mawr***
***Ll2: Pyllau Twyni***
***Ll3: Ynys Llanddwyn***
***Ll4: Maes Parcio'r traeth a'r twyni***

***Pioden y Môr** – Un cyw llawn plu yn Llyn Parc Mawr ac o leiaf 5 pâr o gwmpas Llanddwyn – un nyth gyda thri wy; **Telor y Coed** – Un gwryw yn canu yn y fforest gerllaw Llyn Parc Mawr yn SH412669; **Titw Gynffon Hir** – Pâr gyda chywion llawn plu; **Llwydfron Fach** – Gwryw yn canu; **Telor yr Helyg** – Gwryw yn canu; **Ehedydd** – Gwryw yn canu; Gwennol – Un pâr yn debygol o fod yn nythu ar Ynys Llanddwyn o gwmpas bythynnod ceidwaid y goleudy; **Corhedydd y Graig** – Un pâr yn cario bwyd ac o leiaf 9 gwryw yn gwarchod eu cartref ar Ynys Llanddwyn; **Corhedydd y Waun** – Gwryw yn canu; **Clochdar y Cerrig** – Dau bâr yn nythu, un gyda haid o gywion llawn plu ar Ynys Llanddwyn; **Bran Goesgoch** – Un pâr ym mhen pellaf Ynys Llanddwyn ger Tŵr Mawr; **Cwtiad Torchog** – Un pâr yn nythu ym mhen pellaf Ynys Llanddwyn yn SH386624; **Bran Dyddyn** – Pâr gyda chywion llawn plu*

***Tabl 19: Canlyniadau arolwg planhigion ym maes parcio traeth Niwbrwch***

*Enw'r safle: Maes parcio ar gyfer y traeth, Niwbwrch (SH405635) (Ardal ~50m)*
*Math o arolwg: Arolwg llystyfiant ar y llwybrau*
*Arolygwyr: Ben Porter*
*Dyddiadau'r arolygon: 17 Mehefin 2020*

| Rhywogaeth | Enw Gwyddonol |
|---|---|
| Tafod yr Ych | Echium vulgare |
| Tagaradr | Ononis repens |
| Rhuddygl Poeth | Armoracia rusticana |
| Pig yr Aran | Geranium pyrenaicum |
| Pansi Las | Viola tricolor ssp.curtisii |
| Hocysen Droellog | Malva sylvestris |
| Briwydden Felen | Galium verum |
| Rhuddgoch | Erodium cicutarium |
| Melengu | Reseda luteola |
| **Cyfanswm nifer y rhywogaethau** | **10** |

***Tagaradr*** *– Rhywogaeth cyffredin ar y twynni ond yn gwneud yn dda iawn mewn mannau o gwmpas y maes parcio;* **Rhuddygl Poeth** *– Poblogaeth yn cynyddu yn y maes parcio – erbyn hyn gallai fod y boblogaeth fwyaf ar Ynys Môn;* ***Melengu*** *– Mwy na thebyg bod hwn y cofnod cyntaf yn ardal y maes parcio, heb ei gofnodi yma o'r blaen*

***Tabl 20: Canlyniadau'r arolwg sbwriel yn Niwbwrch***

*Enw'r safle: Niwbwrch ac Ynys Llanddwyn*
*Math o arolwg: Arolwg sbwriel*
*Arolygwyr: Ben Porter, Jo Porter a Nigel Brown*
*Dyddiadau'r arolygon: 17 Mehefin 2020*

| Math o sbwriel | **Nifer** |
|---|---|
| Gril BBQ | 1 |
| Papur melysion | 1 |
| Bag baw ci | 1 |
| **Nifer o fathau sbwriel** | **2** |
| **Nifer o eitemau sbwriel** | **2** |

*Gwelwyd yr holl ddarnau sbwriel naill ai ar Ynys Llanddwyn neu maes parcio Niwbwrch.*

***Tabl 21: Nodweddion cyffredinol a welwyd yn ystod yr arolwg yn Niwbwrch***

*Enw'r safle: Niwbwrch ac Ynys Llanddwyn*
*Math o arolwg: Nodweddion cyffredinol*
*Arolygwyr: Ben Porter, Jo Porter a Nigel Brown*
*Dyddiadau'r arolygon: 17 Mehefin 2020*

| Rhywogaeth | Enw gwyddonol | **Nifer** |
|---|---|---|
| Madfall | Zootoca vivipara | 1 |
| Britheg Werdd | Speyeria aglaja | 5 |
| Morlo Llwyd | Halichoerus grypus | 1 |
| Gwyfyn Ymerawdwr | Saturnia pavonia | 3 |
| Chwilen Poplys | Chrysomela populi | 5 |
| - | Grapholita compositella | 5 |
| Bwrned Chwe Smotyn | Zygaena filipendulae | >20 |
| Cragen Felen | Camptogramma bilineata | >10 |
| Wiwer Goch | Sciurus vulgaris | 1 |

***Madfall*** *– Ynys Llanddwyn;* ***Britheg Werdd*** *– Ynys Llanddwyn;* ***Morlo Llwyd*** *– Ger Ynys y Clochydd ar Ynys Llanddwyn;* ***Gwyfyn Ymerawdwr*** *– Lindys yn yr ardal gorsiog ger olion hen adeiladau ar Ynys Llanddwyn;* ***Chwilen Poplys*** *– Yn yr ardal gorsiog o wellt bras gerllaw'r olion hen adeiladau ar Ynys Llanddwyn;* ***Grapholita compositella*** *– Yn yr ardal gorsiog o wellt bras gerllaw'r olion hen adeiladau ar Ynys Llanddwyn;* ***Bwrned Chwe Smotyn*** *– Ynys Llanddwyn;* ***Cragen Felen*** *– Nifer fawr o wyfynnod llawn tŵf ar hyd ochrau'r llwybr;* ***Wiwer Goch*** *– Ar y ffordd allan o'r yn fforest yn SH414648*

1


2


3


*1. Gwyfyn Bwrned Chwe Smotyn (Zygaena filipendulae)*
*2. Llaethlys yn y twynni gerllaw Ynys Llanddwyn*
*3. Chwilen Poplys (Chrysoma populi)*
*4. xx*
*5. Caldrist y gors (Epipactis palustris)*
*6. xx*

4


5


6


1



***Lluniau pwynt sefydlog i gofnodi cyflwr llystyfiant***

*1. Ar drac y fforest rhwng Llyn Parc Mawr a'r 'pyllau twynni' (P1 – Ffigwr 7b)*
*2. Ar y trac yn y fforest cyn cyrraedd y pyllau twynni (P2 – Ffigwr 7b)*
*3. Mainc bicnic ym maes parcio Ynys Llanddwyn (P3– Ffigwr 7c)*
*4. Safle golygfan yn edrych drosodd i Ynys Llanddwyn (P4 – Ffigwr 7c)*
*5. Trac yn arwain at Ynys Llanddwyn (P5 – Ffigwr 7c)*
*6. Man cychwyn y llwybr o amgylch Ynys Llanddwyn (P6 – Ffigwr 7c).*

2



3







4



5



6



7



8







9



***Lluniau pwynt sefydlog i gofnodi cyflwr llystyfiant***

*7. Ar y llwybr o gwmpas Ynys Llanddwyn (P7 – Ffigwr 7c)*
*8. Llanddwyn (P8 – Ffigwr 7c)*
*9. Llanddwyn (P9 – Ffigwr 7c)*





Ardal Arolygu 7

# Coed y Brenin: Llwybr Pistyll y Llyn a Chylchdaith Afon Eden


| | |
|---|---|
| Safle | Coed y Brenin |
| Dyddiadau'r arolygon | 13 Mehefin 2020 |
| Llwybrau'r daith | Llwybr Pistyll y Llyn<br>Cylchdaith Afon Eden |

Ar gyfer arolwg Coed y Brenin, dewiswyd dwy daith i'w cwblhau yn ystod yr ymweliad: un oedd cymryd llwybr cerdded Pistyll Cain (7km o hyd) o'r prif ganolfan ymwelwyr mewn cylchdro i Bistyll Cain ac yn ôl; a'r ail oedd taith fer ar hyd llwybr cerdded Afon Eden o'r ganolfan ymwelwyr i'r afon ac yn ôl. Roedd yr arolygon a wnaed yn ystod y teithiau hyn yn cynnwys adar (yn enwedig tystiolaeth o adar yn nythu), arwyddion mamaliaid, swm sbwriel, cyflwr llystyfiant ar hyd y llwybrau ac mewn ardaloedd ymgynnull poblogaidd, a lluniau pwynt sefydlog i ddogfennu cyflwr y cynefinoedd.

Amodau tywydd: yr awyr yn gymylog i gychwyn (80% gorchudd cymylau) ond yn clirio erbyn canol y bore gyda thymheredd mwyn (17°C) a gwynt ysgafn o'r gogledd ddwyrain (10-15mya).

Dangosai ffigwr 8 fap o'r teithiau a wnaed a'r nodiadau targed y cyfeirir atynt ymhellach ymlaen yn yr adran canlyniadau.

8




*Ffigwr 8: Map o ardal arolwg Coed y Brenin yn dangos cyfeiriad y ddwy daith a gwblhawyd ar 13 Mehefin 2020: mae'r llinell oren yn dangos y gylchdaith a gymerwyd o'r ganolfan ymwelwyr (dot oren) o gwmpas y daith ~7km o hyd i Pistyll Cain; mae'r llinell frown yn dangos y daith gerdded llawer byrrach o'r ganolfan ymwelwyr i Afon Eden ac yn ôl. Y pwyntiau coch yw'r nodiadau targed y cyfeirir atynt yn y crynodeb canlyniadau; y pwyntiau glas yw safleoedd tynnu lluniau pwynt sefydlog wedi eu lleoli gan mwyaf ar y llwybrau a'r dot gwyrdd gerllaw Afon Eden yw safle'r arolwg llystyfiant.*

## Canlyniadau'r Arolwg

Dros y tudalennau canlynol rhoddir dadansoddiad o ganlyniadau'r arolygon ar gyfer y lleoliad hwn, gan gyfeirio at y map ar gyfer sylwadau penodol i'r lleoliad hwnnw a defnyddio rhifau mewn bracedi.

### Adar

*Gweler 'Tabl 22: Canlyniadau arolwg adar Coed y Brenin' ar dudalen 138*

Cofnodwyd cyfanswm o 33 rhywogaeth o adar yn ystod y ddau arolwg yn fforest Coed y Brenin, gyda chyfanswm o 314 aderyn i gyd. Gwelwyd 31 rhywogaeth ar hyd llwybr Pistyll Cain, a 18 rhywogaeth ar y daith fer at Afon Eden. Y rhywogaethau mwyaf cyffredin a gofnodwyd oedd y Dryw Bach (cyfanswm o 47), Robin Goch (cyfanswm o 38) a'r Titw Tomos Las (cyfanswm o 28). Roedd digonedd o dystiolaeth bod yr adar yn nythu, gan fod teuluoedd adar gyda chywion llawn plu mewn nifer o fannau a nifer dda o adar gwryw yn canu. Roedd y rhywogaethau prin a welwyd yn ystod yr arolwg yn cynnwys Telor y Coed a Bronwen y Dŵr, dau Gorhedydd y Coed, saith Gylfin Groes a dau Wybedog Brith.

Ar y cyfan, nid oedd llawer o dystiolaeth bod rhywogaethau wedi elwa nac wedi ymateb i'r lleihâd yn nifer y pobl oedd yn cerdded y llwybrau a arolygwyd gennym. Y gwahaniaeth mwyaf amlwg a welsom oedd bod rhai rhywogaethau wedi nythu yn agos iawn i'r prif lwybrau, byddai hyn yn anhebygol pe byddai'r nifer arferol o gerddwyr yn defnyddio'r llwybrau. Roedd pâr o Deloriaid y Coed yn nythu o fewn dwy fedr i lwybr Pistyll Cain yn SH726264 (pwynt 2 ar y map); nyth gywrain wedi ei leinio gyda gwellt a thri chyw bach ynddi. Felly hefyd y gwelsom nyth dau Robin Goch, dau bâr o Lwyd y Gwrych a phâr o Delor yr Helyg yn nythu'n agos iawn i ochr llwybr Pistyll Cain. Roedd pâr o Siglen Lwyd yn nythu rywle yn yr olion o gwmpas gwaith dŵr Pistyll Cain, er y gallant fod yn nythu yno pa un bynnag gan fod pobl yn parhau i ddod i'r fan hon.

Roedd pâr o Wenoliaid a rhai Adar y Tô yn nythu o gwmpas bondo y prif ganolfan ymwelwyr (pwynt 1 ar y map), mae'n anodd dweud os oedd y lleihâd yn nifer y bobl yn mynd a dod wedi gwneud gwahaniaeth yn yr achos yma.

### Llystyfiant

*Gweler 'Tabl 23: Canlyniadau arolwg llystyfiant cyffredinol yn ardal picnic Afon Eden' ar dudalen 140*

Ar y cyfan nid oedd y llwybrau wedi eu gorchuddio gan lystyfiant i'r fath raddau ag yr oedd rhai o'r safleoedd eraill, a chymerwyd lluniau mewn nifer o bwyntiau ar hyd y prif lwybr er mwyn gallu cymharu eu cyflwr yn y dyfodol.

Roedd rhai darnau o lwybr Pistyll Cain, fodd bynnag, lle'r oedd lleihâd mewn tramwyo yn bendant wedi cael dylanwad ar y llystyfiant, fel yn y fan ar hyd ymyl y creigiau wrth y rhaeadr yn SH734275 lle'r oedd y cymunedau mwsog a rhedyn wedi tyfu o gwmpas llwybr sydd fel arfer wedi ei lwyr sathru; ac ar hyd y llwybr graeanog i lawr at Raeadr Pistyll Cain ei hun, lle'r oedd coed ifanc o deulu'r Ffawydd islaw wedi dechrau tyfu yng nghanol y llwybr ei hun. Yn sicr ni fyddai'r coed ifanc hyn yn goroesi'n hir gyda'r lefel arferol o gerdded ar rai o'r llwybrau hyn.

Y safle mwyaf amlwg lle'r oedd llystyfiant wedi ffynnu yn absenoldeb ymwelwyr oedd y tir o gwmpas yr ardal picnic gerllaw Afon Eden yn SH721268 (dot gwyrdd ar y map yn ffigwr 7). Yma, roedd y tir o gwmpas y byrddau picnic—sydd fel arfer wedi ei lwyr sathru – wedi ei orchuddio gan amrywiaeth anhygoel o weiriau a blodau gwyllt, yn garped ar y ddaear ac yn amlwg yn ffynnu yn absenoldeb unrhyw ymyrraeth. Cofnodwyd cyfanswm o 19 gwahanol rywogaeth yn yr ardal union o gwmpas y byrddau picnic, yn cynnwys Llosglys, Cnau Daear, Y Feddyges Las a'r Gwlŷdd Melyn.

## Sbwriel

Braf yw cael dweud bod yr arolwg hwn yn dderbyniol iawn o safbwynt sbwriel. Dau ddarn yn unig a ganfuwyd ar y ddwy daith a gymerwyd, sef un bag baw ci ac un darn o blastig lapio.

*Gweler 'Tabl 24: Canlyniadau'r arolwg sbwriel yng Nghoed y Brenin' ar dudalen 141*

## Canfyddiadau Eraill

Roedd cyfoeth o fywyd gwyllt ychwanegol i'w weld yn ystod yr arolwg yn ardal Coed y Brenin, gyda digonedd o bryfed yn y tywydd cynnes a thawel. Roedd y pryfed sy'n haeddu eu crybwyll yn cynnwys un Gwas y Neidr, dau Perlog Godreog, un gloyn byw Brithribin Gwyrdd, un Chwilen Hirgorn ac un gwyfyn Tortrics Melyn; roedd y mwyafrif o'r rhain yn ardal agored y coedydd gerllaw Pistyll Cain ei hun (pwynt 4 ar y map yn ffigwr 7).

*Gweler 'Tabl 25: Nodweddion cyffredinol a welwyd yn ystod yr arolwg Coed y Brenin' ar dudalen 141*

Yr anifeiliaid mwyaf trawiadol oedd y morgrug gweithgar Morgrug Coed Blewog a'u twmpathau nythod. Bu i ni gyfrif o leiaf wyth nyth ar hyd un rhan o lwybr Pistyll Cain (pwynt 3 ar y map yn ffigwr 7). Roedd y twmpathau hyn yn symudol iawn gyda miloedd o forgrug yn torheulo ar ochr y twmpath yn haul y bore, a rhes hir o forgrug gweithio yn gwasgaru i'r fforest i chwilio am fwyd a llystyfiant ar gyfer y nyth.

Ychydig iawn o famaliaid a welwyd er bod un ardal lle'r oedd olion posibl o Fochyn Daear yn crafu am fwyd yn y fforest gerllaw'r Ganolfan Ymwelwyr, a gwelwyd dau sgat Llwynog Coch ar lwybr Pistyll Cain.

*Cywion Robin Goch mewn nyth yng nghanol rhedyn gwryw cennog gerllaw y llwybr i Bistyll Cain*



2

*1. Ffawydden ifanc yn tyfu ar ganol y llwybr gerllaw Pistyll Cain*
*2. xx*

1


2


## Pobl

Gwelwyd rhwng 5-10 o bobl ar y traciau yn y fforest yn ystod yr arolwg, a thua 5 beiciwr ar y traciau 4×4 hyn hefyd.

*Telor y Coed (Phylloscopus sibilatrix) yng Nghoed y Brenin*



***Tabl 22: Canlyniadau arolwg adar Coed y Brenin***

*Enw'r safle: Coed y Brenin*
*Math o arolwg: Adar yn nythu*
*Arolygwyr: Ben Porter a Jo Porter*
*Dyddiadau'r arolygon: 13 Mehefin 2020*

| Rhywogaeth | Enw gwyddonol | Ll1 | Ll2 | **Cyf.** |
|---|---|---|---|---|
| Llwyd y Gwrych | Sylvia atricapilla | 18 | 2 | **20** |
| Robin Goch | Erithacus rubecula | 26 | 12 | **38** |
| Ji-binc | Fringila coelebs | 4 | 1 | **5** |
| Cnocell Fraith Fwyaf | Dendrocopos major | 1 | 0 | **1** |
| Siff-siaff | Phylloscopus collybita | 4 | 4 | **8** |
| Aderyn Du | Turdus merula | 4 | 3 | **7** |
| Dryw Bach | Troglodytes troglodytes | 38 | 9 | **47** |
| Dringwr Bach | Certhia familiaris | 15 | 0 | **15** |
| Titw Mawr | Parus major | 4 | 0 | **4** |
| Titw Tomos Las | Cyanistes caerulus | 26 | 2 | **28** |
| Bronfraith | Turdus philomelos | 5 | 3 | **8** |
| Telor yr Helyg | Phylloscopus trochilus | 10 | 0 | **10** |
| Telor y Coed | Phylloscopus sibilatrix | 4 | 0 | **4** |
| Siglen Lwyd | Motacilla cinereal | 6 | 1 | **7** |
| Titw Gynffon Hir | Aegithalos caudatus | 4 | 0 | **4** |
| Common Whitethroat | Sylvia communis | 2 | 0 | **2** |
| Dryw Eurben | Regulus regulus | 17 | 5 | **22** |
| Titw Benddu | Periapus ater | 18 | 4 | **22** |
| Llinos Bengoch Leiaf | Carduelis cabaret | 3 | 0 | **3** |
| Pila Gwyrdd | Carduelis spinus | 14 | 0 | **14** |
| Gwennol | Hirundo rustica | 0 | 2 | **2** |
| Bran Dyddyn | Corvus corone | 3 | 0 | **3** |
| Gwybedog Brith | Ficedula hypoleuca | 0 | 2 | **2** |
| Delor y Cnau | Sitta europaea | 12 | 0 | **12** |
| Aderyn y Tô | Passer domesticus | 1 | 3 | **4** |
| Garden Warbler | Sylvia borin | 1 | 0 | **1** |
| Sgrech Goed | Garulus glandarulus | 1 | 1 | **2** |
| Bwncath | Buteo buteo | 2 | 0 | **2** |
| Gylfingroes | | 7 | 0 | **7** |
| Corhedydd y Coed | Anthus trvilialis | 2 | 0 | **2** |
| Coch y Berllan | Pyrrhula pyrrhula | 5 | 0 | **5** |
| Llwyd y Gwrych | Prunella modularis | 1 | 1 | **2** |
| Bronwen y Dŵr | Cinclus cinclus | 1 | 0 | **1** |
| **Cyfanswm nifer y rhywogaethau** | | **31** | **18** | **33** |
| **Cyfanswm niferoedd** | | **259** | **55** | **314** |

***Ll1: Cylchdaith Pistyll y Cain***
***Ll2: Cylchdaith Afon Eden***

***Llwyd y Gwrych** – Gwryw yn canu, un pâr yn nythu yn agos iawn i'r prif lwybr; **Robin Goch** – Gwryw yn canu, un pâr yn nythu yn agos iawn i'r prif lwybr; **Ji-binc** – Gwryw yn canu; **Siff-siaff** – Gwryw yn canu; **Aderyn Du** – Un cyw llawn plu; **Dryw Bach** – 23 gwryw yn canu; **Dringwr Bach** – Dau deulu gyda chywion llawn plu; **Titw Tomos Las** – Gwryw yn canu a chwech cyw llawn plu; **Telor yr Helyg** – Gwryw yn canu, un pâr yn nythu yn agos i'r prif lwybr; **Telor y Coed** – Un pâr yn nythu yn agos i'r prif lwybr, dau wryw arall yn canu; **Siglen Lwyd** – Un pâr yn nythu, nifer o rai gwryw yn canu; **Common Whitethroat** – Gwryw yn canu; **Dryw Eurben** – Gwryw yn canu; **Titw Benddu** – Un gwryw yn canu a theulu gyda chywion llawn plu; **Gwennol** – Un pâr yn nythu o gwmpas y prif ganolfan ymwelwyr; **Gwybedog Brith** – Un pâr yn nythu gerllaw'r ardal picnic wrth Afon Eden; **Aderyn y Tô** – Un pâr yn nythu o gwmpas y prif ganolfan ymwelwyr; **Garden Warbler** – Gwryw yn canu; **Corhedydd y Coed** – Gwryw yn canu.*

***Tabl 23: Canlyniadau arolwg llystyfiant cyffredinol yn ardal picnic Afon Eden***

*Enw'r safle: Ardal picnic Afon Eden, Coed y Brenin (SH721268) (Ardal ~10m)*
*Math o arolwg: Arolwg llystyfiant cyffredinol*
*Arolygwyr: Ben Porter a Steve Porter*
*Dyddiadau'r arolygon: 13 Mehefin 2020*

| Rhywogaeth | Enw Gwyddonol | Sgôr DAFOR |
|---|---|---|
| - | Veronica chamaedrys | **Aml** |
| Llygad y Dydd | Bellis perennis | **Aml** |
| Fioled Gyffredin | Viola sp. | **Ambell un** |
| Rhyddlwyn y Coed | Veronica montana | **Aml** |
| Gwlyddyn Melyn | Lysimachia nemorum | **Ambell un** |
| Gwalchlys | Gallium saxsatile | **Ambell un** |
| Rhonwellt y Ci | Cynosurus cristatus | **Digonedd** |
| Melyswellt | Anthox anthum | **Aml** |
| Gwellt Gweirdir | Dactylis glomerata | **Aml** |
| Gweunwellt Garw | Poa trivialis | **Aml** |
| Hesgen Lwyd | Carex divulsa | **Aml** |
| Y Feddyges Las | Prunella vulgaris | **Prin** |
| Suran y Coed | Oxalis acetosella | **Ambell un** |
| Blodyn Ymenyn | Ranunculus acris | **Prin** |
| Rhedyn Caled | Blechnum spicant | **Ambell un** |
| Llosglys | Melampyrum pratense | **Ambell un** |
| Cnau daear | Conopodium majus | **Aml** |
| Creulys Iago | Jacobaea vulgaris | **Prin** |
| Collen | Corylus avellana | **Prin** |
| Cyfanswm nifer y rhywogaethau | | **19** |

***Tabl 24: Canlyniadau'r arolwg sbwriel yng Nghoed y Brenin***

*Enw'r safle: Coed y Brenin*
*Math o arolwg: Arolwg sbwriel*
*Arolygwyr: Ben Porter a Steve Porter*
*Dyddiadau'r arolygon: 13 Mehefin 2020*

| Math o sbwriel | Nifer |
|---|---|
| Bag baw ci | **1** |
| Plastig lapio | **1** |
| **Nifer o fathau sbwriel** | **2** |
| **Nifer o eitemau sbwriel** | **2** |

***Tabl 25: Nodweddion cyffredinol a welwyd yn ystod yr arolwg Coed y Brenin***

*Enw'r safle: Coed y Brenin*
*Math o arolwg: Nodweddion cyffredinol*
*Arolygwyr: Ben Porter a Steve Porter*
*Dyddiadau'r arolygon: 13 Mehefin 2020*

| Rhywogaeth | Enw gwyddonol | Nifer |
|---|---|---|
| Mochyn Daear | Meles meles | **-** |
| Morgrug Coed Blewog | Formica lugubris | **8 nyth** |
| Perlog Godreog | Boloria selene | **2** |
| Llwynog Coch (1) | Vulpes vulpes | **1 sgat** |
| Brithribyn Gwyrdd | Callophrys rubi | **1** |
| Chwilen Hirgorn | Pachytodes cerambyciformis | **1** |
| Gwas y Neidr | Cordulegaster boltonii | **1** |
| Llwynog Coch (2) | Vulpes vulpes | **1 sgat** |
| Tortrics Melyn | Pseudargyrotoza conwagana | **1** |


***Mochyn Daear** – Tystiolaeth o fochyn daear yn crafu ar lawr y fforest tua chychwyn y daith 100m o'r ganolfan ymwelwyr; **Morgrug Coed Blewog** – Ar ymylon y llwybr; **Perlog Godreog** – Yn y goedlan ar gylchdaith Pistyll Cain; **Llwynog Coch (1)** – Ar lwybr Pistyll Cain; **Brithribyn Gwyrdd** – Ger Pistyll Cain; **Chwilen Hirgorn** – Ger Pistyll Cain; **Gwas y Neidr** – Ger Pistyll Cain; **Llwynog Coch (2)** – Ar y llwybr ger Pistyll Cain; **Totrics Melyn** – Ger Pistyll Cain.*

1

2

3

4

5

6


*1. Cofnodi cyflwr llystyfiant o gwmpas y byrddau picnic gerllaw Afon Eden*
*2.Chwilen*
*3. Chwilen Hirgorn (Pachytodes cerambyciformis)*
*4. Cofnodi cyflwr llystyfiant o gwmpas y byrddau picnic gerllaw Afon Eden*
*5. xx*
*6. xx*





***Lluniau pwynt sefydlog i gofnodi cyflwr llystyfiant***

*1. Ar gychwyn llwybr Pistyll Cain (P1) ar y map yn ffigwr*
*2. Ger Pistyll Cain mewn rhan glir o'r coed (P2)*





Crynodeb o arolygon yr iseldir

# Trosolwg o'r prif ganfyddiadau o'r gwaith arolygu yn yr ardaloedd iseldir a choediog

## Adar yn nythu gerllaw llwybrau ac mewn ardaloedd sydd fel arfer yn boblogaidd

Yn y tri safle tir isel, gwelwyd adar yn nythu mewn rhai mannau lle na fyddent yn meiddio gwneud yn arferol. Yn Ceunant Llennyrch roedd pâr o Siglen Lwyd yn nythu yn y ceunant uwchlaw Rhaeadr Du; o gwmpas Ynys Llanddwyn roedd pâr o Gornchwiglod yn nythu ar y traeth yn agos i ben draw'r ynys ac yn debygol o gael llonydd yno, ac roedd yn Llanddwyn hefyd bump pâr o Biod Môr a naw aderyn gwryw Corhedydd y Graig yn canu; yng Nghoed y Brenin gwelwyd pâr o Delor y Coed yn nythu yn agos iawn at y prif lwybr, ac hefyd un Robin Goch, dau bâr o Lwyd y Gwrych a phâr o Delor yr Helyg - y cyfan yn nythu yn agos iawn i un o'r prif lwybrau.

## Tŵf llystyfiant ar y llwybrau ac o gwmpas safleoedd ymgynnull poblogaidd

Roedd planhigion a llystyfiant ar y llwybrau yn llai amlwg yma nag yn ardaloedd ucheldir Eryri, er bod safleoedd fel ardaloedd picnic (er enghraifft o gwmpas Niwbwrch ac yng Nghoed y Brenin) wedi elwa oherwydd diffyg tramwyo a cherdded, gyda chyfoeth o flodau gwyllt a gweiriau yn tyfu'n iraidd mewn rhai mannau. Efallai mai'r llwybr o gwmpas Ynys Llanddwyn oedd y fan lle'r oedd y diffyg tramwyo wedi dwyn mantais mwyaf i'r fflora gan fod amrywiaeth eang o flodau gwyllt a gweiriau yn tyfu ar ymylon y llwybrau a hyd yn oed ar y llwybrau eu hunain mewn rhai mannau. Roedd y prif faes parcio yn Niwbwrch yn safle arall oedd wedi ymateb yn anhygoel i'r diffyg defnydd yn ystod y cyfnod clo, ac amrywiaeth syfrdannol o flodau gwyllt megis Tafod yr Ych a Tagaradr yn tyfu ym mhobman o gwmpas y maes parcio ac o fewn y cilfachau parcio

eu hunain. Roedd yr ochrau yma yn llawn o flodau gwyllt lle byddai'r tramwyo a'r cerdded arferol wedi rhwystro'r rhywogaethau lliwgar rhag ffynnu. Er na chafodd ei arolygu yn fanwl, roedd Ceunant Llennyrch hefyd wedi manteisio oddi wrth y diffyg cerddwyr yn yr ardal, a fyddai yn arferol yn niweidio'r cymunedau rhedyn a mwsog bregus ar y creigiau a'r meini. Roedd un safle ger Rhaeadr Du yn dal i ddangos tystiolaeth o erydu o ganlyniad i ddefnydd gan bobl, ond roedd yn dangos arwyddion gwella er bod effaith troedio dynol yn amlwg yma.

## Diffyg sbwriel

Fel yn yr ucheldir, yn gyffredinol roedd diffyg sbwriel ar y llwybrau ac o gwmpas y mannau ymgynnull poblogaidd yn yr ardaloedd lle cynhaliwyd yr arolygon hyn. Mae cyfanswm o saith eitem yn Ceunant Llennyrch, tri o gwmpas Niwbwrch a dau yng Nghoed y Brenin yn isel iawn, ac yn cynnig tudalen lan ac heb ei chyffwrdd ar y cychwyn wrth i ardaloedd gael eu hagor. Gobeithio y bydd gweld yr ardaloedd ymwelwyr hyn yn lân yn annog yr ymwelwyr hynny i'w cadw felly, er y bydd arolygon yn y dyfodol yn dangos a gafodd y dymuniad hwn ei wireddu. Mae'n amlwg bod ardaloedd ymgynnull poblogaidd yn creu sbwriel - er enhraifft roedd bron y cyfan o'r sbwriel yn Ceunant Llennyrch yn ganlyniad un barbeciw ac ymgynnull ar draeth creigiog ger Rhaeadr Du.

## Gweithgareddau niweidiol yn ystod y cyfnod clo

Ar y cyfan ni welwyd llawer o arwyddion nac effeithiau negyddol y cyfnod clo, ond un safle gwerth ei nodi yw cwr y coetir yn Ceunant Llennyrch (cyf. grid SH666391). Yma, ymddengys bod nifer o feiciau modur wedi bod yn rasio yn ddiweddar o gwmpas llethr o dan y coed gan rwygo mwsog bregus a niweidio arwyneb o lawr y fforest yn mesur tua 20-30 medr o led. Efallai bod gweithgareddau fel y rhain yn fwy tebygol o ddigwydd mewn rhai ardaloedd pan na fydd neb o gwmpas i dynnu sylw at y fath ymddygiad.

*Coed y Brenin*



PARC CENEDLAETHOL ERYRI
SNOWDONIA NATIONAL PARK

Ymddiriedolaeth Genedlaethol
National Trust

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales